# Cyngor Sir Ceredigion

# Adroddiad Blynyddol

# Trosolwg a Chraffu

# 2019/20



# Cyflwyniad

**BETH YW TROSOLWG A CHRAFFU?**

Mae pwyllgorau craffu'n rhan o'r ffordd y mae llywodraeth leol yn gweithredu yng Nghymru. Ochr yn ochr â'r gofyniad i sefydlu gweithrediaeth sy'n gwneud penderfyniadau, mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 hefyd yn peri iddi fod yn ofynnol sefydlu un neu ragor o bwyllgorau craffu i ddwyn y penderfynwyr i gyfrif, i hybu gwelliannau, i weithredu fel llais y gymuned, ac i gynorthwyo â'r gwaith o lunio ac adolygu polisïau.

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn argymell pedair prif egwyddor i gynorthwyo Aelodau i ymgymryd â gwaith craffu effeithiol:

i. Herio'r rheini sy'n llunio polisïau ac yn gwneud penderfyniadau fel 'cyfaill beirniadol';
ii. Sicrhau bod llais a phryderon y cyhoedd a chymunedau'n cael eu clywed;
iii. Sicrhau mai 'llywodraethwyr annibynnol eu meddwl' sy'n arwain ac yn perchnogi'r broses graffu;
iv. Sicrhau bod y broses yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn hybu gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus.

Mae'r *Canllawiau Statudol i Gynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru ar Drefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen* (2006) yn nodi "bod pwyllgorau trosolwg a chraffu yn rhan hanfodol ac annatod o drefniadau gweithrediaeth".

Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur gwyn o'r enw *Diwygio llywodraeth leol: cadernid ac adnewyddiad.* Roedd y papur gwyn yn gofyn am sylwadau ar gynigion i beri iddi fod yn orfodol gweithio ar sail ranbarthol i ddarparu gwasanaethau amrywiol, i fynd i'r afael â materion gweithlu, ac i fynd ati i ddiwygio'r drefn etholiadol. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi papur gwyrdd sy'n egluro ei dyheadau ac yn amlinellu datganiad o'i bwriad i gryfhau ac i rymuso llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r cynigion hyn yn amlinellu dull o sicrhau y bydd modd i lywodraeth leol fynd ati yn y dyfodol "i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cryfach, mwy cadarn a chynaliadwy, gydag atebolrwydd democrataidd yn graidd iddi".

Yn ystod 2017/2018, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad *'Trosolwg a Chraffu – Addas ar gyfer y Dyfodol?'* Bu'r adolygiad hwn yn pwyso a mesur i ba raddau yr oedd swyddogaethau craffu 22 awdurdod lleol Cymru'n 'addas ar gyfer y dyfodol'. Bu Swyddfa Archwilio Cymru'n ystyried sut yr oedd cynghorau'n ymateb i'r heriau yr oeddent yn eu hwynebu o ran eu gweithgareddau craffu. Yn eu plith roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r modd yr oedd y cynghorau'n craffu ar waith y byrddau gwasanaethau cyhoeddus. Fel rhan o'r adolygiad, bu Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn adolygu'r cynnydd a wnaed gan y

cynghorau i fynd i’r afael ag argymhellion ei Hastudiaeth Wella Genedlaethol, *Craffu Da? Cwestiwn Da!* (Mai 2014). Dyma oedd y prif ganfyddiadau:

“Mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y swyddogaeth trosolwg a chraffu wrth graffu ar brosesau gwneud penderfyniadau, ond gellid gwneud mwy i ymestyn yr ystod o ddulliau craffu a ddefnyddir a gwerthuso ei heffaith.

- Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn cyfrannu'n dda at y gwaith o graffu ar brosesau gwneud penderfyniadau ac mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ei phwysigrwydd
- Mae blaenraglenni gwaith pwyllgorau craffu yn cynnwys materion priodol, gellid gwneud mwy i ymestyn yr ystod o ddulliau craffu a ddefnyddir ymhellach a sicrhau ei fod yn adolygu'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn adroddiadau archwilio ac adroddiadau eraill gan gyrff rheoleiddio ac arolygu
- Nid yw'r Cyngor wedi adolygu effeithiolrwydd ei swyddogaeth trosolwg a chraffu yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae adolygiad bellach yn mynd rhagddo a fydd yn galluogi'r Cyngor i werthuso effaith gweithgarwch craffu a nodi lle y gallai wella.”

Ni wnaeth Swyddfa Archwilio Cymru unrhyw argymhellion statudol, ond bu iddi bennu tri chynnig gwella h.y. ei chynigion o ran y camau y gallai’r Cyngor eu cymryd i wella effeithiolrwydd ei swyddogaeth trosolwg a chraffu i sicrhau ei fod mewn gwell sefyllfa i wynebu heriau yn awr ac yn y dyfodol:

C1. Sicrhau y caiff adroddiadau ar y cynnydd sydd wedi'i wneud i fynd i'r afael ag argymhellion y gwasanaeth archwilio mewnol ac argymhellion cyrff rheoleiddio, arolygu ac archwilio allanol eu hystyried i'w cynnwys mewn blaenraglenni gwaith trosolwg a chraffu

C2. Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:

- darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;
- canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau; a
- sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol.

C3. Dylai'r Cyngor adolygu'r math o gymorth craffu sydd ei angen i alluogi'r swyddogaeth graffu i ymateb i heriau yn y dyfodol.

Lluniwyd ymateb gan y rheolwyr ac fe’i cyflwynwyd i Swyddfa Archwilio Cymru fel y dangosir isod. Mae’r wybodaeth mewn coch yn rhoi’r diweddaraf am y camau a gymerwyd.

C1. Ar ôl i’r Pwyllgor Archwilio ystyried hyn, sicrhau bod cadeiryddion ac is-gadeiryddion y pwyllgorau trosolwg a chraffu perthnasol yn penderfynu a oes angen cynnwys argymhellion y gwasanaeth archwilio mewnol ac argymhellion cyrff rheoleiddio, arolygu ac archwilio allanol, ynghyd ag unrhyw ymateb gan y rheolwyr / cynlluniau gweithredu, ym mlaenraglenni gwaith y pwyllgorau trosolwg a chraffu.

***Y camau a gymerwyd:*** *Bydd y swyddogion craffu’n trafod ac yn cyd-drafod â’r cadeiryddion a’r is-gadeiryddion yn barhaus, yn ogystal â monitro eitemau ar agenda’r Pwyllgor Archwilio.*

C2. Adolygu blaenraglenni gwaith presennol y pwyllgorau trosolwg a chraffu i sicrhau eu bod yn adlewyrchu’r rhesymeg dros ddewis pynciau a’r dulliau a ddefnyddir i ystyried y materion dan sylw e.e. drwy grwpiau gorchwyl a gorffen, ffrydiau gwaith, ymweliadau safle, ac ati.

***Y camau a gymerwyd:*** *Aethpwyd ati i adolygu blaenraglenni gwaith y pwyllgorau trosolwg a chraffu ac fe ychwanegwyd colofn newydd i nodi’r rheswm dros graffu ar fater penodol h.y. monitro, polisi, adolygu, gwneud argymhelliad/argymhellion. Caiff pob grŵp gorchwyl a gorffen, ffrwd waith ac ymweliad safle ei nodi yn y blaenraglenni.*

C3. Cyfrifoldeb y Swyddog Arweiniol Corfforaethol.

Byddwn yn monitro ymateb y rheolwyr yn rheolaidd i sicrhau bod y camau’n cael eu cwblhau.



## GALW PENDERFYNIADAU I MEWN



Pan wneir penderfyniad gan y Cabinet, aelod o’r Cabinet neu un o bwyllgorau’r Cabinet, neu pan wneir penderfyniad dan drefniadau ar y cyd, bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi, gan gynnwys drwy ddulliau electronig lle bo hynny’n bosibl, a bydd ar gael ym mhrif swyddfeydd y Cyngor cyn pen dau ddiwrnod gwaith ar ôl iddo gael ei wneud fel rheol. Bydd y sawl sy’n gyfrifol am gyhoeddi’r penderfyniad yn anfon copi o’r cofnodion at yr Aelodau cyn pen dau ddiwrnod gwaith. Bydd yr hysbysiad yn dangos dyddiad cyhoeddi’r penderfyniad ac yn nodi y bydd yn dod i rym, ac y gellir ei roi ar waith, ar ôl i bum diwrnod gwaith fynd heibio ar ôl cyhoeddi’r penderfyniad, oni bai fod tri aelod o’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y mae ei gylch gorchwyl yn gysylltiedig â phenderfyniad y Cabinet (fel y nodir yn Erthygl 6 o Ran 2 o’r Cyfansoddiad) neu chwe Aelod Etholedig o’r Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor hwnnw, yn gwrthwynebu’r penderfyniad a’i alw i mewn. Ceir mwy o wybodaeth am y broses o alw penderfyniadau i mewn ar dudalen 211 o Gyfansoddiad y Cyngor. https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/ynglyn-cyngor/cyfansoddiad-y-cyngor/

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, galwyd un o benderfyniadau Cyngor Sir Ceredigion i mewn:

- Galw i mewn benderfyniad C161 y Cabinet o ran Safle'r Hen Gartref Gofal, Penparcau

Ceir mwy o wybodaeth am alw’r penderfyniad hwn i mewn yn yr adran am y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu thematig perthnasol.

## Y PWYLLGORAU

Ceir pum pwyllgor trosolwg a chraffu thematig:




- Cydlynu

- Cymunedau Ffyniannus







- Cymunedau sy'n Dysgu




- Cymunedau Iachach




- Adnoddau Corfforaethol

O dan adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, rhoddir pwerau adolygu a chraffu eang i'r pwyllgorau, ynghyd â'r gallu i lunio adroddiadau ac i wneud argymhellion o ran unrhyw fater sy'n berthnasol i'r ardal a'i thrigolion. Yn ôl y canllawiau, swyddogaethau'r cynghorwyr sy'n ymgymryd â gwaith trosolwg a chraffu yw:

i. dal y weithrediaeth yn atebol am arfer swyddogaethau'r weithrediaeth yn effeithlon – yn arbennig perfformiad y weithrediaeth o'i fesur yn erbyn y safonau, yr amcanion a'r targedau a nodir yn y polisïau a'r cynlluniau y mae'n eu gweithredu;
ii. helpu i wella ac i ddatblygu polisïau'r cyngor drwy bwyso a mesur a ydynt yn cyrraedd yr amcanion a nodwyd, a yw'r polisïau hynny a'r ffordd y maent yn cael eu gweithredu yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau'r cymunedau lleol a thrwy gyflwyno adroddiadau ac argymhellion i'r weithrediaeth neu i'r cyngor llawn;
iii. adolygu materion sy'n effeithio ar ardal yr awdurdod neu ei thrigolion a chyflwyno adroddiadau arnynt;
iv. edrych a yw'r systemau y mae'r weithrediaeth wedi'u sefydlu i gyflwyno'i swyddogaethau yn gadarn ac yn cael eu parchu'n iawn.

Yn ychwanegol at hyn, gallant adolygu sut y mae'r swyddogaethau anweithredol yn cael eu cyflawni a llunio adroddiadau am faterion o ddiddordeb lleol mwy cyffredinol. Gallent gyplysu hyn â phŵer yr awdurdod o dan Ran 1 o'r Ddeddf i hybu lles

economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol drwy nodi meysydd y gallai'r weithrediaeth roi sylw iddynt gan ddefnyddio'r pŵer hwn.

Mae canllawiau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn nodi bod gan swyddogaeth graffu unrhyw awdurdod rôl glir yn ei brosesau gwella, a hynny fel rhan o'i swyddogaeth i ddwyn penderfynwyr a llunwyr polisïau i gyfrif yn lleol, a'i swyddogaeth llunio polisïau. Dylai hyn gynnwys:

i. craffu ar y prosesau y mae awdurdod wedi mynd trwyddynt wrth gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella;
ii. craffu ar addasrwydd y sefydliad i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella;
iii. craffu ar y prosesau y mae awdurdod wedi mynd trwyddynt wrth ddewis ei amcanion gwella, gan gynnwys adolygu lefel yr ymgysylltu â rhanddeiliaid;
iv. craffu ar fonitro'r cynnydd wrth gyflenwi amcanion gwella'r awdurdod;
v. hyrwyddo arloesi trwy herio'r drefn ac annog gwahanol ffyrdd o feddwl ac opsiynau cyflenwi.

O dan adran 35 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol sicrhau bod gan ei bwyllgorau trosolwg a chraffu bŵer i graffu ar y penderfyniadau a wneir gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ardal yr awdurdod lleol, neu'r camau a gymerir ganddo, pan fydd yn arfer ei swyddogaethau.

Yn ystod y flwyddyn adrodd flaenorol, bu aelodau'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu'n trin a thrafod materion a oedd yn ymwneud â chraffu ar waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (y Bwrdd).

I gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac i sicrhau bod trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol ar waith ar gyfer y Bwrdd, cytunwyd y byddai Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am gael trosolwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd.

Cytunodd Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion i ddefnyddio'r dull a ganlyn i gael trosolwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd.

i. Adolygu'r penderfyniadau a wnaed neu'r camau a gymerwyd gan y Bwrdd, neu graffu arnynt, drwy wneud yr hyn a ganlyn:
    - Gweithredu fel ymgynghorai ffurfiol ar gyfer yr Asesiad o Lesiant Lleol
    - Gweithredu fel ymgynghorai ffurfiol ar gyfer y Cynllun Llesiant Lleol
    - Cael adroddiad cynnydd blynyddol y Bwrdd
    - Cael cofnodion y Bwrdd
    - Cael adroddiadau monitro perfformiad y Bwrdd.
ii. Adolygu **trefniadau llywodraethu'r Bwrdd**, neu graffu arnynt, drwy wneud yr hyn a ganlyn:
    - ➢ Cael cylch gorchwyl y Bwrdd ar ôl pob un o gyfarfodydd gorfodol y Bwrdd (rhaid cynnal cyfarfod gorfodol o'r Bwrdd cyn pen 60 diwrnod ar ôl pob etholiad arferol i ethol cynghorwyr fan bellaf).

- Gwahodd aelodau o'r Bwrdd i roi tystiolaeth o ran y modd y mae cyd-swyddogaethau'n cael eu harfer (ond dim ond o ran arfer y cyd-swyddogaethau a roddwyd iddynt fel aelod statudol o'r Bwrdd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).

iii. Llunio adroddiadau neu wneud argymhellion i'r Bwrdd o ran ei swyddogaethau neu ei drefniadau llywodraethu.
iv. Cyfeirio materion at y pwyllgor trosolwg a chraffu thematig perthnasol i'w ystyried ymhellach fel y bo'n briodol.
v. Cyflwyno argymhellion y pwyllgor(au) craffu i'r Cabinet, y Bwrdd a'r is-grŵp perthnasol.

**Gall y pwyllgorau craffu gyflawni eu gwaith drwy un o'r ffyrdd a ganlyn:**

i. Ystyried pwnc yn ystod cyfarfod ffurfiol;
ii. Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ymchwilio i bwnc mewn mwy o fanylder;
iii. Ystyried pwnc mewn ffrwd waith (gweler y manylion a geir yn adran y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ar dudalen 52 isod);
iv. Ymweld â safleoedd.

Bu'r pwyllgorau trosolwg a chraffu'n canolbwyntio ar y meysydd hynny lle y gallent ddylanwadu fwyaf ar y canlyniadau i bobl Ceredigion. O'r herwydd, aeth y pwyllgorau ati i adolygu pynciau amrywiol, ac mae rhai o'r adolygiadau hyn yn dal i fynd rhagddynt.


Mae aelodau'r pwyllgorau trosolwg a chraffu wedi gweithio'n galed i greu diwylliant lle mae tryloywder, cyfranogiad ac atebolrwydd yn cael eu croesawu a lle mae her yn cael ei hystyried yn rhan anhepgor a chadarnhaol o'r broses o wella canlyniadau. Mae'n dal i fod yn hanfodol bod y pwyllgorau trosolwg a chraffu'n parhau i gyfrannu'n gadarnhaol at y gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor drwy eu rôl fel cyfaill beirniadol.

**Hunanwerthuso'r pwyllgorau trosolwg a chraffu**

Bob blwyddyn, cynhelir adolygiad o effeithiolrwydd y pwyllgorau trosolwg a chraffu. Gellir llenwi'r holiadur ar-lein neu ar bapur. O ran holiadur 2018/19, daeth 20 ymateb i law (allan o gyfanswm posibl o 42). Cytunodd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd y dylid lleihau nifer y cwestiynau yn holiadur 2019/20 i geisio cynyddu nifer yr ymatebion.

## Y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu

Cyfarfu'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu bum gwaith yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2019/2020.



Ymhlith yr eitemau safonol a drafodir ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu mae diweddariad am ddatblygiadau o ran y swyddogaeth graffu, a diweddariad gan y Cadeiryddion am waith eu pwyllgorau. Mae hyn yn rhoi ffocws clir i waith y pwyllgorau thematig.

Y prif faterion a drafodwyd

Rôl y Pwyllgor Cydlynu yw goruchwylio holl flaenraglenni gwaith y pwyllgorau trosolwg a chraffu i sicrhau eu bod yn berthnasol, eu bod yn gydnaws â'r blaenoriaethau corfforaethol, a'u bod yn canolbwyntio ar feysydd allweddol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn sicrhau bod y blaenraglenni gwaith yn cael eu cydlynu i osgoi dyblygu, gan sicrhau eu bod yn realistig ac yn ymarferol o ystyried yr adnoddau sydd ar gael, a'u bod yn debygol o ychwanegu gwerth. Mae pob pwyllgor yn cytuno i ystyried ei flaenraglenni gwaith ei hunan.

Daeth cynrychiolwyr Siambr Fasnach Llanbedr Pont Steffan i un o gyfarfodydd y Pwyllgor i drafod pryderon am fyrddau hysbysebu A a oedd wedi'u lleoli yn y dref. Ar ôl ystyried Adroddiad Monitro Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2017-18, penderfynwyd gwahodd cynrychiolwyr siambrau masnach pob tref i gyfarfod yn y dyfodol i drafod yr hyn sy'n peri pryder.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Awgrymodd yr Aelodau y dylid rhoi canllawiau penodol ar waith, ac fe gytunwyd i ofyn i'r swyddogion bwyso a mesur y posibilrwydd o wneud hyn, gan drafod â busnesau lleol a threialu'r canllawiau gyda Siambr Fasnach Llanbedr Pont Steffan i ddechrau.*

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol 2018/19 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (y Bwrdd) am y Cynllun Llesiant Lleol i'r Pwyllgor ar ffurf fideo. Y fideo oedd Adroddiad Blynyddol cyntaf y Bwrdd, ac roedd yn amlinellu'r hyn a wnaed yn ystod y flwyddyn gyntaf i roi'r Cynllun Llesiant Lleol ar waith. Roedd cadeiryddion

grwpiau prosiect y Bwrdd yn bresennol yn y cyfarfod, gan gynnwys y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd y Cyngor a Chadeirydd y Bwrdd, Mrs Hazel Lloyd Lubran, CAVO a Chadeirydd Grŵp Prosiect Deall ein Cymunedau, Mr Iwan Cray, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chadeirydd y Grŵp Prosiect Cydleoli ac Integreiddio Gwasanaethau Rheng Flaen, Ms Ros Jervis, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Chadeirydd y Grŵp Prosiect Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer Iechyd, Ms Gillian Wells, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chadeirydd y Grŵp Prosiect Newid Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol, a Mr Eifion Evans, Cadeirydd y Grŵp Prosiect Menter ac Arloesedd. Rhoddodd pob un o'r cadeiryddion adroddiad cryno am y gwaith a gyflawnwyd gan eu grwpiau prosiect hyd yma. Yna, cafodd aelodau'r Pwyllgor gyfle i holi'r cadeiryddion.

Cyflwynwyd cofnodion y Bwrdd ac adroddiadau am gyfarfodydd y grwpiau prosiect i'r Pwyllgor yn rheolaidd.

Cyflwynwyd adroddiad am fodel y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i'r Pwyllgor i roi gwybod i'r Aelodau am newidiadau i Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion a threfn adrodd ei his-grwpiau. Roedd hefyd yn gyfle i egluro'r berthynas rhwng gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, y Bwrdd Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol a Bwrdd CONTEST ar raddfa sirol, a'r gydberthynas rhyngddynt ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
*Yn unol â'r strwythur adrodd presennol, caiff adroddiadau eu cyflwyno i'r Pwyllgor ddwywaith y flwyddyn, felly gellir cyflwyno asesiad strategol ac adroddiad cynnydd yng nghanol y flwyddyn. Cyflwynir y cynllun cyflawni a'r asesiad i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ymhen 12 mis i ddangos y cynnydd a wnaed gan y partneriaethau.*

Cafwyd trafodaethau am yr hyfforddiant a ddarperir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gadeiryddion pwyllgorau craffu.

Bu'r Aelodau'n trafod adroddiad y Bartneriaeth Atal a Lleihau Niwed a oedd yn cynnwys cofnodion cyfarfodydd y Bartneriaeth dros y deunaw mis diwethaf.

Bu hefyd yn ystyried adroddiad am Chwythu'r Chwiban. Roedd rhan o'r adroddiad yn rhoi sylw i feysydd i'w datblygu ymhellach. Yn ystod y flwyddyn, bu'r Pwyllgor hefyd yn monitro'r modd y mae'r Awdurdod yn defnyddio Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000, a bu'n ystyried canlyniad arolygiad Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio.

Rhoddwyd diweddariadau i'r Pwyllgor am Raglen Ceredigion i Adsefydlu Ffoaduriaid. Yn ôl yr adroddiadau hyn, roedd y Cyngor wedi trefnu i adsefydlu 54 ffoadur yn y sir, ac roedd Croeso Teifi, Aberteifi ac Aberaid, Aberystwyth, wedi adsefydlu 20 ffoadur arall.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Cytunodd y Pwyllgor i nodi:*

*a. bod Cyngor Ceredigion wedi bodloni ei addewid cychwynnol i adsefydlu 50 o ffoaduriaid rhwng 2015 a 2020.*

*b. y bydd Rhaglen Ceredigion i Adsefydlu Ffoaduriaid yn parhau i gyfrannu at gynllun adsefydlu newydd llywodraeth y DU.*

*c. bod aelodau'r Pwyllgor Craffu hwn yn parhau i oruchwylio Rhaglen Ceredigion i Adsefydlu Ffoaduriaid.*

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau chwarterol CYSUR, y Grŵp Gweithredol Lleol ar Ddiogelu. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi gwybodaeth reoli am y camau a gymerwyd o dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Mae'r adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth a ddarperir gan asiantaethau eraill o ran diogelu lles plant yng Ngheredigion. Trafodir yr wybodaeth reoli gan aelodau Grŵp Gweithredol Lleol CYSUR (Ceredigion) i fonitro ac i werthuso effeithiolrwydd y trefniadau i ddiogelu plant yng Ngheredigion a'r canlyniadau a gyflawnwyd. Mae'r cyfarfodydd amlasiantaeth yn gyfle i bennu problemau o ran perfformiad a materion eraill yn y maes hwn, ac i weithredu ar eu sail. Darperir gwybodaeth am berfformiad i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru hefyd, ac mae hyn yn gyfle i ddadansoddi perfformiad, tueddiadau a phroblemau ar draws y rhanbarth.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau chwarterol y Gwasanaeth Diogelu Oedolion. Mae'r adroddiadau hyn yn tynnu sylw at weithgarwch a pherfformiad y Gwasanaeth Diogelu Oedolion ac yn rhoi data ystadegol i sicrhau bod modd cymharu gweithgarwch o chwarter i chwarter ac o flwyddyn i flwyddyn, yn ogystal â nodi'r prif bethau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r adroddiad hefyd yn pwysleisio'r prif feysydd gwaith a'r prif welliannau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Bu'r Pwyllgor yn trafod camau i lunio trefn graffu ar y cyd ar gyfer Cydbwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru, a hynny ar ôl cyfarfod cychwynnol rhwng swyddogion craffu Ceredigion a Phowys.

Bu i'r Pwyllgor gymeradwyo a nodi Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu 2018/2019.

Bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried Adroddiad Blynyddol 2018/2019 am yr Amcanion Llesiant a Gwella.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Ar ôl iddynt ei ystyried, penderfynodd aelodau'r Pwyllgor argymell y dylid cyflwyno Adroddiad Perfformiad Drafft 2018-19 am yr Amcanion Llesiant a Gwella i'r Cabinet a'r Cyngor ei ystyried, gan dynnu sylw at bryderon y Pwyllgor o ran y toriadau a oedd ar fin digwydd i'r Gwasanaethau Hamdden. Mynegodd aelodau'r Pwyllgor bryderon dwys am Flaenoriaeth Gorfforaethol 2: Buddsoddi yn nyfodol y bobl, ac Amcan*

*Llesiant 2.3: Gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo a meithrin ffyrdd o fyw iach ac actif – Camau:*

*• Parhau i weithredu'r weledigaeth ar gyfer gweithgareddau chwaraeon a chorfforol i gefnogi ffyrdd o fyw egnïol;*

*• Gwella partneriaethau â chlybiau a chymdeithasau lleol i wneud y defnydd mwyaf o gyfleusterau hamdden a sicrhau'r lefelau cyfranogiad uchaf ar draws Ceredigion.*

*Gan fod llawer o ganolfannau hamdden a phyllau nofio’r sir naill ai wedi’u trosglwyddo i ofal y gymuned neu mewn perygl o gau, roedd aelodau’r Pwyllgor yn cwestiynu a ddylai hon fod yn flaenoriaeth gorfforaethol.*

Cyflwynwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft 2020-2024 i’r Pwyllgor cyn ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a’i gyflwyno i’r Cabinet.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Cytunodd aelodau’r Pwyllgor i argymell bod y Cabinet yn derbyn yr argymhellion, gan ystyried y pwyntiau a wnaed gan y Pwyllgor o ran yr amcanion.*

Cyflwynwyd Adroddiad Monitro 2018-2019 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i’r Pwyllgor i sicrhau bod yr Awdurdod yn bodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011. Cytunodd aelodau’r Pwyllgor i dderbyn ac i gymeradwyo Adroddiad Monitro’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019.

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad am gyllideb ddrafft 2020/2021, gan gynnwys y rhaglen gyfalaf dair blynedd, gan nodi mai setliad dros dro oedd hwn. Dywedodd y Cynghorydd ap Gwynn wrth yr Aelodau mai’r gyllideb Gofal Cymdeithasol i Oedolion oedd yn wynebu’r pwysau mwyaf o ran costau, a bod y gyllideb honno wedi bod dan straen mawr mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd yr Aelodau’n falch o gael gwybod y bydd y Gwasanaethau i Oedolion yn cael mwy o arian.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Cytunodd yr Aelodau ar sefyllfa gyffredinol y gyllideb fel yr oedd wedi'i nodi yn yr adroddiad i’r Cabinet am y gyllideb, a bu iddynt ofyn am i fwy o fanylion gael eu cyflwyno pan fyddai’r pwyllgorau craffu thematig yn ystyried y gyllideb.*

*Mae’r Pwyllgor yn monitro’r goblygiadau i’r gyllideb drwy gydol y flwyddyn, ac mae’n cael diweddariadau ariannol rheolaidd pan fydd yn ystyried adroddiadau.*

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad am Brexit a oedd yn amlinellu’r sefyllfa bresennol, y camau nesaf, a’r amcanestyniadau diweddaraf o gostau Brexit. Darparwyd gwybodaeth am yr Asesiad o Effaith Brexit ar Geredigion. Mae’r Asesiad yn rhestru’r risgiau a bennwyd gan yr Awdurdod, ei bartneriaid a’r llywodraethau, ac yn amlinellu’r camau arfaethedig i’w cymryd, ynghyd â’r cynnydd a wnaed o ran y

camau hynny. Mae’r Asesiad yn cael ei ddiweddaru pan fydd materion newydd yn dod i’r amlwg a phan fydd materion a bennwyd eisoes yn cael eu lliniaru.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Cytunodd aelodau’r Pwyllgor fod camau rhesymol yn cael eu cymryd yng Ngheredigion i baratoi ar gyfer Brexit, a bu iddynt ofyn i’r swyddogion ddychwelyd i roi diweddariad iddynt ymhen chwe mis.*

Cyflwynwyd gwybodaeth am weithdrefnau diogelu newydd Cymru i’r Pwyllgor.

Bu’r Pwyllgor yn ystyried y rhan honno o Adroddiad Blynyddol 2018-19 Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd yn ymwneud â diogelu. Roedd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach wedi ystyried yr adroddiad cyfan. Nodwyd y byddai’r adroddiadau hyn yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau yn y dyfodol.

**Materion trosedd ac anhrefn**

Daeth adrannau 19 ac 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006, ynghyd â Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Trosolwg a Chraffu) 2009, i rym ar 1 Hydref 2009.

Yn unol â’r ddeddfwriaeth hon, mae’n ofynnol i’r Cyngor sefydlu:

- ‘pwyllgor craffu trosedd ac anhrefn’ a fydd yn craffu ar waith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion a’r cyrff sy’n aelodau ohoni mewn perthynas â’u swyddogaethau i ddiogelu’r gymuned,
- gweithdrefn a fydd yn sicrhau bod modd i’r pwyllgor trosolwg a chraffu, gan gynnwys y bartneriaeth a’r cyrff sy’n aelodau ohoni, fynd i’r afael â galwadau gan Gynghorwyr iddynt weithredu pan fyddant yn ymdrin â materion diogelwch cymunedol.

Bu i Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu’r Cyngor ysgwyddo’r cyfrifoldeb dros faterion trosedd ac anhrefn.

## Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol chwe gwaith yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2019/2020.



<u>Y prif faterion a drafodwyd</u>

Ar ddechrau'r flwyddyn fwrdeistrefol, bu'r Pwyllgor yn ystyried y camau i lunio Blaenraglen Waith Trosolwg a Chraffu 2019/2020. Cafodd y flaenraglen waith ei monitro a'i diweddaru ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor fel eitem sefydlog ar yr agenda.







Yn ei gyfarfod ar 17 Hydref 2020, cyflwynwyd i'r Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Cyngor am y ganmoliaeth, y cwynion, y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a'r ceisiadau o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a oedd wedi dod i law rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

Roedd yr adroddiad yn ymwneud â chwynion yr aethpwyd i'r afael â nhw o dan Bolisi (Corfforaethol) Pryderon a Chwynion y Cyngor a Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor i roi trosolwg cynhwysfawr ar y ganmoliaeth, y cwynion, a'r ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a oedd wedi dod i law'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi gwybodaeth am y cwynion a gyfeiriwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod y cyfnod hwnnw.

Rhoddodd y Rheolwr Corfforaethol Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth wybodaeth i'r Aelodau am gefndir y gwasanaeth a'r sefyllfa bresennol. Dywedwyd y byddai'r adroddiad hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 24 Hydref 2019 i rannu'r wybodaeth â holl aelodau'r Cyngor.

**CANLYNIAD/EFFAITH**

*Bu i'r Aelodau ganmol yr adroddiad a'r arferion gorau a roddwyd ar waith gan yr Awdurdod i drin a thrafod cwynion. Cafodd yr Aelodau hefyd sicrwydd fod y systemau angenrheidiol ar waith i gofnodi cwynion, eu dadansoddi, ac adrodd am yr hyn a ddysgir ohonynt.*

*Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol wedi bod yn monitro cwynion gan fod y mater wedi'i nodi ar Gofrestr Risg yr Awdurdod yn flaenorol.*

Yn yr un cyfarfod, bu aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn ystyried y Polisi Iechyd Diogelwch cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cabinet ei ystyried.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Bu i aelodau'r Pwyllgor argymell bod y Cabinet yn cytuno i wneud yr hyn a ganlyn:*

- *Cymeradwyo'r Polisi Iechyd a Diogelwch, yn ddibynnol ar ystyried yr hyn a ganlyn:*

1. *bod yr Awdurdod yn chwarae mwy o rôl arweiniol i gynorthwyo ac i gynghori holl ysgolion Cyngor Sir Ceredigion pan fyddant yn ymdrin â materion iechyd a diogelwch;*
2. *tynnu sylw cyrff llywodraethu at y gofyniad i gynnwys hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd a diogelwch yng nghwricwlwm newydd yr ysgolion;*
3. *cysylltu â Fforwm y Llywodraethwyr i sicrhau bod y llywodraethwyr hynny sy'n eiriolwyr dros iechyd a diogelwch yn cael yr holl hyfforddiant priodol diweddaraf;*
4. *bod holl Aelodau etholedig yr Awdurdod yn cael hyfforddiant iechyd a diogelwch.*




*Yn sgil argymhellion y Pwyllgor i'r Cabinet (rhifau 1, 2 a 3 uchod), cytunodd y gwasanaeth i ymgymryd â mwy o waith o ran hyfforddiant cymorth cyntaf ac ati mewn ysgolion, gydag aelod staff newydd yn ei le i ymdrin yn benodol ag ysgolion.*
*O ran argymhelliad 4 (hyfforddiant iechyd a diogelwch), cynhaliwyd gweithdy ar gyfer Aelodau etholedig ar 27 Ionawr 2020, ac fe gynhaliwyd hyfforddiant Head Start ar 6 Chwefror 2020, gyda chwe aelod o'r Pwyllgor yn bresennol.*

Bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried diweddariad i Gynllun y Gweithlu.




**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor er mwyn iddo barhau i fonitro'r cynnydd a wnaed o ran y Cynllun.*

Yn yr un cyfarfod, bu aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn ystyried y Polisi Cam-drin Domestig cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cabinet ei ystyried.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Bu i aelodau'r Pwyllgor argymell bod y Cabinet yn cytuno i wneud yr hyn a ganlyn:*

- *cymeradwyo'r Polisi Cam-drin Domestig;*

*er mwyn cydymffurfio â gofynion Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.*

Yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol (2018/2019), cyflwynwyd adroddiad i roi gwybod i'r Pwyllgor am swyddogaethau a gwasanaethau Adain Ystadau'r Cyngor.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Sefydlwyd tri grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried rhai o brif feysydd gwaith y gwasanaeth, yn enwedig y rheini nad ymchwiliwyd iddynt ers cryn amser. Roedd yr Aelodau'n cytuno bod ystad yr Awdurdod yn ased gwerthfawr, felly byddent yn chwilio am enghreifftiau o arferion da neu feysydd i'w gwella gan roi argymhellion i'r Cabinet pan fyddai'r gwaith wedi'i gwblhau.*

***Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae rhannau o'r gwaith hwn yn dal i fynd rhagddynt, a byddwn yn cynnwys y casgliadau yn Adroddiad Blynyddol 2020/2021.***

Cytunwyd ar enwau a phwrpas/meysydd gwaith y grwpiau gorchwyl a gorffen, sef:

1. Trafodiadau:

- Ystyried trefniadau presennol y gwasanaeth i sicrhau'r incwm mwyaf posibl pan fydd yn gwerthu ac yn prydlesu asedau;
- Ystyried y trefniadau presennol pan fydd yn prynu tir neu adeiladau, ac ystyried cadernid y broses/prosesau.
  - Gwaredu asedau (tir ac adeiladau)
  - Yr ystad gorfforaethol
  - Prynu asedau

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Cyfarfu'r Grŵp Trafodiadau bedair gwaith.*

*Yn eu cyfarfod ym mis Mawrth 2019, cytunodd aelodau'r Grŵp i ysgrifennu at Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Grŵp Datblygu, i wahodd cynrychiolwyr o'r Grŵp hwnnw i gyfarfod ag aelodau'r Grŵp Trafodiadau. Roedd yr Aelodau'n awyddus i gael gwybod pa gyfleoedd datblygu yr oedd y Grŵp Datblygu wedi'u pennu fel blaenoriaeth, a oedd unrhyw rai o'r cyfleoedd hynny'n ymwneud ag eiddo'r Cyngor, a pha rôl y gallai'r Adain Ystadau ei chwarae i gynorthwyo'r Tîm Datblygu i wireddu ei ddyheadau. Ar 25 Medi 2019, cyfarfu'r Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Rhodri Evans, yr Aelod Cabinet dros yr Economi ac Adfywio, Eifion Evans, y Prif Weithredwr, Russell Hughes-Pickering, Arweinydd Corfforaethol yr Economi ac Adfywio, ac Arwyn Davies, y Rheolwr Corfforaethol Twf a Menter, ag aelodau'r Grŵp Trafodiadau.*

*Ar ôl trafodaeth faith, cytunodd yr Aelodau i argymell i'r Cabinet:*

- *y dylid cynnal adolygiad o swyddogaethau'r Gwasanaeth Ystadau i bennu ac i sicrhau bod yr Awdurdod yn cael yr adenillion mwyaf posibl o'i asedau;*
- *y dylid cynnal adolygiad o bolisïau'r Awdurdod ar waredu a chadw asedau, ynghyd â darparu dogfen strategol sy'n amlinellu sut y gall y Gwasanaeth Ystadau gyfrannu at flaenoriaethau corfforaethol yr Awdurdod;*
- *y dylai'r Aelod Cabinet ddychwelyd gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ymhen chwe mis i roi diweddariad.*

*Cyflwynwyd adroddiad yng nghyfarfod y Cabinet ar 5 Tachwedd 2019. Cytunodd y Cabinet i dderbyn yr argymhellion.*

2. <u>Rheoli Ystadau a Chyfleoedd:</u>

- Ystyried y trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd i wella neu i ddatblygu tir ac adeiladau;
- Ystyried y trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd i drwyddedu gofodau neu adeiladau eraill, neu i ganiatáu iddynt gael eu defnyddio, e.e. digwyddiadau ac adeiladau fel y Bandstand;
- Pennu cyfleoedd i ychwanegu bywiogrwydd, i hyrwyddo a marchnata cyfleoedd, ac i gynyddu incwm yn y dyfodol.
  - Defnyddio gofodau ac adeiladau (trwyddedau)
  - Rheoli eiddo (cynnal a gwella asedau)
  - Datblygu safleoedd a chaniatâd cynllunio

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
*Cyfarfu'r Grŵp Rheoli Ystadau a Chyfleoedd dair gwaith.*

3. <u>Adnoddau, Ffermydd Sirol a Galwadau Newydd:</u>

- Ystyried a yw'r adnoddau presennol yn addas i'r diben (staff a chyllidebau);
- Ystyried effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd o ran ffermydd sirol, ac a oes lle i'w gwella;
- Ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn ymdopi â galwadau newydd e.e. gofynion o ran tystysgrifau perfformiad ynni, cefnogi asesiadau hyfywedd, prosesau prisio Swyddfa Archwilio Cymru.
  - Ffermydd sirol
  - Adnoddau
  - Galwadau newydd/eraill

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
*Mae gwaith y Grŵp Adnoddau, Ffermydd Sirol a Galwadau Newydd yn dal i fynd rhagddo, ac mae wedi cwrdd bedair gwaith hyd yma. Yn anffodus, bu'n rhaid gohirio cyfarfod a drefnwyd ar 30 Ebrill 2020 oherwydd pandemig y coronafeirws. Fel rhan o'i waith craffu parhaus, mae'r Pwyllgor yn deall ac yn cydnabod yn llwyr y rôl bwysig y mae amaethyddiaeth yn ei chwarae yn economi wledig Ceredigion. Felly, mae'n bwysig bod y Cyngor yn mynd ati i wireddu potensial ei ystad ffermydd i'r eithaf, gan sicrhau ar yr un pryd ei fod yn parhau i roi cyfle i bobl ymuno â'r diwydiant a rhoi eu*

*troed ar ris gyntaf yr ysgol ffermio. Roedd y Cadeirydd wedi estyn gwahoddiad i denantiaid fferm ddod i'r cyfarfod ar 30 Ebrill 2020 oherwydd bod y Grŵp yn awyddus iawn i glywed eu barn ac i glywed am eu profiad o rentu fferm sirol. Y nod oedd pennu meysydd lle byddai modd gwella'r profiad, a thrin a thrafod potensial economaidd yr ystad ffermydd.*

*Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei aildrefnu pan fydd gwasanaethau'n ailddechrau.*

*Mae'r grwpiau wedi gwneud cyfanswm o 23 awgrym/argymhelliad hyd yma, ac mae'r Aelod Cabinet a'r swyddog wedi derbyn llawer ohonynt a'u rhoi ar waith yn sgil cyfarfodydd y grwpiau gorchwyl a gorffen. Cyflwynir adroddiad i'r Cabinet maes o law pan fydd gwasanaethau'n ailddechrau ar ôl pandemig y coronafeirws. Fel y soniwyd eisoes, mae gan y Grŵp Adnoddau, Ffermydd Sirol a Galwadau Newydd fwy o waith i'w wneud o hyd o ran ffermydd sirol.*

Cafodd aelodau'r Pwyllgor wybod fod y cynllun i dreialu bwyd a diod ar bromenâd Aberystwyth dros yr haf 2019 wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Roedd yr arolwg cyhoeddus lle cafwyd dros 400 o ymatebion yn dangos hyn yn glir. Yn ychwanegol at ymatebion a oedd yn bennaf gadarnhaol, gwnaed rhai awgrymiadau i wella'r cynllun pe câi ei ailadrodd yn 2020. Cafodd yr Aelodau grynodeb o'r sylwadau.



Dywedodd y swyddog fod y sylwadau a ddaeth i law drwy'r arolwg wedi cael eu hystyried, ac felly mai'r bwriad oedd defnyddio cyfleoedd 2019 gyda mân newidiadau a darparu mwy o leoliadau i'r de o'r pier. Gan fod mwy o ddiddordeb, cafodd rhai parthau eu cyfyngu i seddi yn unig, ond roedd eraill ar gael ar gyfer cabanau bwyd. Roedd angen gofalu na chaiff cabanau bwyd eu lleoli o flaen busnesau sy'n bodoli eisoes i sicrhau nad ydynt yn effeithio ar fusnesau sydd wedi hen sefydlu.

Dywedwyd hefyd fod llawer o'r bobl sy'n defnyddio'r promenâd yn cerdded hyd at y pier, ond nad ydynt yn mynd ymhellach i'r de oherwydd bod yno lai o atyniadau. O'r herwydd, lleolwyd parth gyferbyn â Chôr y Castell sydd i'w weld o'r pier, ynghyd â pharth arall gerllaw maes parcio'r harbwr.



**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Roedd yr Aelodau'n falch iawn o glywed y byddai'r cynllun peilot yn cael ei estyn i'r haf 2020, pe câi ei gymeradwyo gan y Cabinet. Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2020, cytunodd y Cabinet i barhau â'r cynllun peilot i gynyddu'r cyfleoedd i werthu bwyd a diod ar y promenâd yn y parthau penodedig.*

*Cytunwyd hefyd i fwrw ymlaen â chynigion a gymeradwywyd gan y Cabinet i ddarparu dau gyfle trwyddedig (ar Draeth y Gogledd a Thraeth y De).*




Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi adborth gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd i ystyried adroddiadau paratoi'r gyllideb.

Aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen oedd: y Cynghorydd Keith Evans (Cadeirydd), y Cynghorwyr Ivor Williams, Lynford Thomas, Ifan Davies, Gareth Davies, John Adams-Lewis, Ceredig Davies, Lyndon Lloyd MBE, Wyn Thomas, Dai Mason.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 19 Mehefin 2019 i bennu cwmpas/nodau'r adolygiad, sef:

- Adolygu'r broses o baratoi'r gyllideb a'i goblygiadau;
- Rhoi gwybod am ganlyniad yr adolygiad hwn i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol, a chyflwyno argymhellion y Pwyllgor i'r Cabinet.

**Y prif faterion:**

- Angen gwybodaeth fanwl am gyfanswm y cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys gwybodaeth fanwl am y grantiau/cyllid ychwanegol a ddyrannwyd i'r Awdurdod, megis adnoddau ariannol ychwanegol ar gyfer gofal dementia ac ati;
- Ceisio cael eglurhad ynghylch yr Asesiadau o Wariant Safonol;
- Ceisio cael eglurder o ran pwy sy'n penderfynu sut y mae adnoddau ariannol yn cael eu rhannu / dosbarthu ar draws gwasanaethau;
- Gofyn am i'r broses o adrodd am y cynnydd a wneir gan brosiectau trawsnewid fod yn fwy eglur – angen ymchwilio ymhellach i hyn;
- Mynd i'r afael â phryderon ynghylch cynnydd blynyddol y dreth gyngor – awgrymu y dylid ymchwilio i senarios lle ceir cynnydd posibl e.e. o 2%, o 3% ac ati, gan gynnwys y goblygiadau o ran cost.

Yna, cyfarfu aelodau'r Grŵp â swyddogion a'r Aelod Cabinet ar 17 Medi 2019 i gael gwybodaeth am y broses o baratoi'r gyllideb a'i goblygiadau. Cafodd aelodau'r Grŵp gyflwyniad manwl a oedd yn cynnwys:

**Cynllunio** – gan gynnwys paratoi strategaeth y gyllideb a diweddaru'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, ynghyd â chynlluniau ac amserlenni manwl y gweithgareddau y mae angen ymgymryd â nhw i lunio'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf;

**Paratoadau manwl** – gan gynnwys cyflwyno a choladu cynigion twf a chynigion arbedion, a chyfrifo'r cyllid disgwyliedig;

**Herio ac ymgynghori** – gan gynnwys ymgynghori â'r cyhoedd;

**Ystyried a chymeradwyo adroddiadau ffurfiol y gyllideb** – roedd yr Aelodau'n tybio bod y sesiwn hon yn hynod fuddiol, ac roeddent yn teimlo eu bod wedi pwyso a mesur y broses mewn manylder.

Bu i'r Cadeirydd ddiolch i'r swyddogion am fod yn agored, am gyfrannu at gyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, ac am ymgysylltu â'r broses a'i chefnogi.

Roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ddiolchgar i'r Cynghorydd Gareth Lloyd, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyllid a Chaffael a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd, am ddod i gyfarfodydd y grŵp.

***CANLYNIAD A/NEU EFFAITH***

*Cytunodd y Pwyllgor i gadarnhau'r argymhellion a ganlyn a'u cyflwyno i'r Cabinet ar 5 Tachwedd 2019:*

***Ar ôl trafodaeth faith, cytunodd yr Aelodau i argymell yr hyn a ganlyn i'r Cabinet:***

1. *Bod Aelodau portffolio a swyddogion yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r pwyllgorau craffu bob chwarter ar sefyllfa ariannol y Cyngor fel y mae ar yr adeg benodol honno;*
2. *Bod angen i'r broses o greu prosiectau trawsnewid ac adrodd am eu cynnydd fod yn fwy eglur;*
3. *Bod angen ailgyflwyno gweithdai rheolaidd i'r Aelodau am y gyllideb;*
4. *Bod y Cabinet yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i bwysleisio y byddai'n well gan yr Awdurdod pe bai cyllid grant yn cael ei gynnwys yn ffigur setliad yr Awdurdod, ond os nad yw hynny'n dderbyniol i Lywodraeth Cymru, dylai ystyried darparu cyllid grant rheolaidd dros gyfnod estynedig, yn hytrach na thaliadau grant unigol, i sicrhau bod modd cynllunio gwasanaethau'n well. Yn ogystal, byddai'n well pe bai grantiau'n dod i law ar yr un pryd â'r setliadau yn hytrach nag ar ôl cyhoeddi'r setliadau;*
5. *Ei fod yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i bwysleisio ei bod yn anodd cynllunio gwasanaethau yn y tymor canolig neu'r tymor hir yn ystod y cyfnod hir hwn o lymder gan fod setliadau'n cael eu dyrannu'n flynyddol. Byddai rhoi dyraniad dangosol dros gyfnod o dair blynedd, dyweder, yn ffordd fwy effeithlon o wneud penderfyniadau strategol ac o bennu trywydd strategol o ran darparu gwasanaethau, a byddai mwy o gyfleoedd i'r awdurdodau gynllunio eu gwasanaethau, yn enwedig gwasanaethau statudol, pe bai setliadau hirdymor yn cael eu rhoi;*
6. *bod yr Awdurdod yn ceisio sicrhau bod cynlluniau wrth gefn ar y silff er mwyn iddo fanteisio ar unrhyw grantiau neu gyllid cyfalaf munud olaf a ddarperir gan Lywodraeth Cymru;*
7. *bod y Gwasanaeth Cyllid a Chaffael yn ysgrifennu at Rieni/Gwarcheidwaid/Gofalwyr Maeth sy'n gymwys ond nad ydynt yn hawlio prydau ysgol am ddim i'w hannog i wneud hynny er mwyn cynyddu'r niferoedd i'r eithaf. O gynyddu'r niferoedd cymwys yr adroddir amdanynt, gallai mwy o gyllid ddod i Geredigion drwy'r fformwlâu a ddefnyddir i gyfrifo'r Asesiad o Wariant Safonol;*
8. *bod opsiynau arbed y gyllideb yn fwy eglur ac yn cael eu hesbonio'n fanwl gan Aelodau'r Cabinet a swyddogion mewn gweithdai am y gyllideb ac yng nghyfarfodydd blynyddol y pwyllgorau trosolwg a chraffu am y gyllideb.*

*Dangosir penderfyniad y Cabinet isod.*
*Argymhelliad 1 = cymeradwywyd;*
*Argymhelliad 2 = cymeradwywyd ond dylid gweld gwelliant yn y maes hwn eisoes gan fod gwaith wedi mynd rhagddo yn y maes hwn;*
*Argymhelliad 3 = yn cael eu cynnal yn rheolaidd;*
*Argymhelliad 4 = mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi annog y Llywodraeth i wneud hyn yn y gorffennol, ac fe gafodd rywfaint o lwyddiant.*

*Cadarnhaodd yr Arweinydd ei bod wedi cyfarfod â'r Gweinidog sydd wedi addo y bydd yn ceisio cyhoeddi'r ddau gyda'i gilydd yn y dyfodol;*
*Argymhelliad 5 = rhaid i Lywodraeth Cymru aros i'r llywodraeth ganolog roi ffigur iddi yn y lle cyntaf;*
*Argymhelliad 6 = mae cynlluniau hyblyg ar waith os bydd unrhyw arian grant neu arian cyfalaf yn dod i law yn hwyrach na'r disgwyl;*
*Argymhelliad 7 = bydd y Cabinet yn gofyn i'r Cyfarwyddwr bwyso a mesur yr argymhelliad hwn ymhellach. Anfonwyd llythyron at benaethiaid yn y gorffennol gan fod y berthynas rhyngddynt a'r rhieni'n agosach. Efallai ei bod yn bryd ailedrych ar yr opsiwn hwn i gynorthwyo ysgolion;*
*Argymhelliad 8 = fe'i nodwyd yn barod i'w drafod yn y gweithdy am y gyllideb ar 6 Tachwedd 2019.*

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad y Rheolwr Corfforaethol – Refeniw ac Asesiadau Ariannol am yr adroddiad perfformiad ar Ddiwygio Lles. Cyflwynwyd yr adroddiad i roi datganiad ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran agweddau amrywiol ar Ddiwygio Lles a diweddariad am y camau i gyflwyno'r Credyd Cynhwysol yng Ngheredigion.

Bu i'r Rheolwr Corfforaethol amlinellu cefndir Diwygio Lles a rhoi diweddariad i'r Pwyllgor am y sefyllfa bresennol o ran:

- Y Cap ar Fudd-daliadau
- Y Cymhorthdal Ystafell Sbâr (y dreth ystafell wely)
- Y Taliad Disgresiwn ar Gostau Tai
- Y Credyd Cynhwysol

***CANLYNIAD A/NEU EFFAITH***
*Mae'r Aelodau'n cael adroddiadau rheolaidd at ddibenion monitro.*

Yn yr un cyfarfod, bu aelodau'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn amlinellu'r sefyllfa bresennol o ran casglu treth gyngor ac ardrethi busnes 2018/19. Rhoddodd yr Aelodau ddiolch i'r swyddog am adroddiad clir a chynhwysfawr.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Cytunodd aelodau'r Pwyllgor i argymell bod y Cabinet yn ystyried:*

- *Cynnig achos busnes i ystyried y posibilrwydd o sefydlu tîm gorfodi a fydd yn cynnwys dau gyflogai i ganolbwyntio ar ddyledion y gellir eu hadennill. Awgrymodd yr Aelodau y dylid treialu hyn am ddwy flynedd i ddechrau.*

*Cytunodd y Cabinet i nodi'r adroddiad adborth, ond ni fu iddo gytuno â'r argymhelliad am y rheswm a ganlyn:*

- *Dros y pedair blynedd diwethaf, mae cyfradd gasglu gyfartalog Cyngor Sir Ceredigion o 97.2% ar gyfer y dreth gyngor yn agos iawn at gyfartaledd Cymru o 97.3%. Cyfradd gasglu gyfartalog Cymru ar gyfer ardrethi annomestig (busnes) yn 2018/19 oedd 97.6%, ffigur sydd 0.4% yn is na chyfradd gasglu Cyngor Sir Ceredigion yn ystod y flwyddyn o 98.0%.*

Cafodd yr Aelodau ddiweddariad am y cynnydd a wnaed hyd yma i ddarparu Gwasanaethau Cwsmeriaid ar draws pob rhan o'r Awdurdod.


Rhoddwyd Prosiect Clic ar waith ym mis Hydref 2017 i greu Canolfan Gyswllt Gorfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Cwsmeriaid ac i ehangu'r gwasanaethau a ddarperir ar-lein ac yn Swyddfeydd Gwasanaethau Cwsmeriaid Aberystwyth, Aberaeron, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan. Mae aelodau'r Pwyllgor wedi parhau i gadw llygad ar y camau i ddatblygu'r gwasanaeth, ac roeddent yn ffodus o gael cyfle i ymweld â Clic yn ystod 2019.

Mae 17 o weithwyr amser llawn yn ateb galwadau yn y Ganolfan Gyswllt, a hynny o gyfanswm o 18 o swyddi. Mae'r ddau oruchwylydd yn parhau i gysylltu â gwasanaethau i sicrhau bod yr wybodaeth a roddir yn gywir, ac maent yn mynd ati ar y cyd â'r Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid i sicrhau ansawdd y data a gesglir ac i rannu unrhyw bryderon â'r meysydd gwasanaeth perthnasol.

**<u>Lluniau o ymweliad yr Aelodau â Clic:</u>**





**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Mae'r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid (Clic) yn peri iddi fod yn haws i bobl gael gafael ar wybodaeth a chyngor am wasanaethau'r Cyngor. Mae'n canolbwyntio ar symleiddio a chanoli'r gwasanaethau cwsmeriaid presennol drwy leihau nifer y canolfannau galw a'r canolfannau gwasanaethau cwsmeriaid ledled y sir i sicrhau bod y Cyngor yn darparu gwasanaeth effeithlon, effeithiol a darbodus.*

*Roedd yr Aelodau'n cytuno iddi fod yn fuddiol ymweld â Clic oherwydd iddynt gael cyfle i siarad â'r staff, gweld sut y mae'r system yn gweithio, a gwrando ar staff yn ateb galwadau'r cyhoedd. Roedd yr Aelodau hefyd yn falch o gael diweddariad am hynt y Gwasanaethau Cwsmeriaid.*

Bu aelodau'r Pwyllgor yn ystyried cyllidebau'r meysydd gwasanaeth hynny sy'n rhan o'i gylch gwaith, sef:

- Cyllid a Chaffael
- Polisi a Pherfformiad – ac eithrio Diogelu'r Cyhoedd
- Gwasanaethau Democrataidd
- Pobl a'r Sefydliad
- Cyswllt â Chwsmeriaid
- Y Gyfraith a Llywodraethu
- Yr Economi ac Adfywio – yr Ystad Gorfforaethol yn unig

Cyflwynodd swyddogion a'r Aelod Cabinet perthnasol wybodaeth berthnasol am eu meysydd gwasanaeth.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Ar ôl trafod, cytunodd yr Aelodau i argymell bod y Cabinet yn:*

1. *cymeradwyo cyllidebau'r meysydd gwasanaeth sy'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor fel y nodir uchod.*

Bu aelodau'r Pwyllgor hefyd yn ystyried newidiadau arfaethedig i'r Ffioedd a'r Taliadau sy'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Ar ôl trafod, cytunodd yr Aelodau i argymell bod y Cabinet yn:*

1. *cymeradwyo'r Ffioedd a'r Taliadau arfaethedig sy'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor.*

Yn ei gyfarfod ar 26 Chwefror 2020, bu'r Pwyllgor yn ystyried Polisi a Gweithdrefnau Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cafodd y Pwyllgor wybod nad oedd un polisi na gweithdrefn ysgrifenedig ar gael ar hyn o bryd i reoli cwynion am Wasanaethau Cymdeithasol y Cyngor, ac eithrio'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru o ran Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014.

Rhoddodd y Rheolwr Cwynion wybod y byddai modd diweddaru'r holl wybodaeth arall sy'n gysylltiedig â'r polisi (e.e. taflenni gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd, posteri, hyfforddiant staff, ac ati) ar ôl i'r Cabinet ei gymeradwyo ac iddo gael ei roi ar waith.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Ar ôl trafod, cytunodd yr Aelodau i argymell bod y Cabinet yn:*

- *cymeradwyo Polisi a Gweithdrefnau Cwynion drafft y Gwasanaethau Cymdeithasol*

*Yn ddibynnol ar ystyried yr hyn a ganlyn:*

1. *Dylid sicrhau bod dolen at weithdrefn gwynion/weithdrefnau cwynion yr Awdurdod yn cael lle mwy blaenllaw ar y dudalen honno ar wefan y Cyngor lle ceir y ddewislen er mwyn iddi fod yn hawdd i'r cyhoedd gael gafael ar ganllaw cam-wrth-gam sut mae cwyno;*
2. *Dylid sicrhau bod y teitl cywir ar gyfer rôl Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyson drwy'r ddogfen. Ar hyn o bryd, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Ceredigion sy'n ymgymryd â rôl statudol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.*
3. *Mae tudalen 12 y polisi yn cyfeirio at gwynion sy'n ymwneud â mwy nag un corff. Awgryma'r Aelodau y dylid cynnwys Cyrff Llywodraethu Ysgolion hefyd, felly dylai'r polisi ddarllen fel a ganlyn:*
    - *(e.e. os yw'r gŵyn am y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd neu Gorff Llywodraethu Ysgol);*
4. *Dylai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach dderbyn adroddiadau rheolaidd am y cwynion i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac, fel rhan o'i flaenraglen waith, dylai'r Pwyllgor benderfynu pa mor rheolaidd y bydd yn derbyn adroddiadau o'r fath.*

*Cytunodd y Cabinet i bwyso a mesur awgrymiadau'r Pwyllgor sydd wedi'u rhifo 1 i 3 uchod. O ran argymhelliad 4, bydd y Swyddog Trosolwg a Chraffu'n cyd-drafod â chadeirydd y Pwyllgor.*

Yn yr un cyfarfod, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad Swyddog Corfforaethol Arweiniol yr Economi ac Adfywio am Bolisi Datblygu Asedau Drafft 2020.

Cafodd y Pwyllgor wybod bod y polisi presennol wedi'i gymeradwyo yn 2008, a'i fod yn canolbwyntio'n bennaf ar amlinellu'r gweithdrefnau i waredu asedau'r Cyngor nad oes eu hangen mwyach. Roedd angen diweddaru'r polisi i roi mwy o ystyriaeth i ddulliau o wneud y defnydd gorau a/neu gael y gwerth gorau o'n hasedau cyn eu gwerthu ar y farchnad agored.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Bu i aelodau'r Pwyllgor argymell bod y Cabinet yn:*

1. *Cymeradwyo'r Polisi Datblygu Asedau Drafft er mwyn galluogi dull mwy strategol o ddatblygu a rheoli asedau.*
2. *Ei bod yn hanfodol ymgynghori â'r Aelodau leol bob amser cyn unrhyw broses brydlesu, gwaredu a chaffael (gan gynnwys Trosglwyddo Asedau Cymunedol) a bod yr Aelodau lleol yn cael y newyddion diweddaraf am hynt y broses; a bod hyn yn cael ei gynnwys fel gofyniad yn y Polisi Datblygu Asedau Drafft (2020);*
3. *Ystyried, lle bo'n briodol, trosglwyddo asedau nad oes mo'u hangen a hynny o dan y Cynllun Trosglwyddo Asedau Cymunedol;*
4. *Y dylai Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol fod yn Aelodau o'r Panel Asesu.*

*Cytunodd y Cabinet i gymeradwyo'r Polisi Datblygu Asedau Drafft. O ran argymhelliad 2, ni fyddai'n bosibl o dan yr amgylchiadau presennol ymgynghori â'r Aelod lleol cyn unrhyw broses i brydlesu, gwaredu neu gaffael asedau, a thrwy gydol y broses honno, felly gwrthododd y Cabinet yr argymhelliad hwn. Serch hynny, mae swyddogion yn cysylltu ag Aelodau lleol pan fyddant yn tybio bod hynny'n berthnasol. Bydd argymhelliad 3 yn cael ei ystyried pan fydd y polisi newydd yn cael ei roi ar waith.*

*O ran argymhelliad 4, cytunodd y Cabinet y dylai Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol, y Cynghorydd Keith Evans, ac Is-gadeirydd y Pwyllgor hwnnw, y Cynghorydd Ivor Williams, fod yn aelodau o'r Panel Asesu.*



Dywedodd y Swyddog Monitro fod penderfyniad C161 (manylion isod) wedi'i alw i mewn ar ôl cyfarfod y Cabinet ar 25 Chwefror 2020.

Cafodd cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor ei gynnull a'i gynnal ar 16 Mawrth 2020 i ystyried penderfyniad y Cabinet yn ei gyfarfod ar 25 Chwefror 2020 o ran Hen Safle

Cartref Gofal, Penparcau (cofnod C161 a ddangosir isod). Gwnaed cais i alw'r penderfyniad i mewn gan yr aelodau a ganlyn:
Y Cynghorwyr Dai Mason, Lyndon Lloyd MBE a John Adams-Lewis.

**Penderfyniad y Cabinet 25 Chwefror 2020 (C161)**
**C161 Hen Safle Cartref Gofal,**
**Penparcau**
**PENDERFYNIAD**
**(i) Dirymu penderfyniad C214 y Cabinet (6/3/18);**

**(ii) Bod yr Aelodau'n cytuno i:**
**a. awdurdodi swyddogion i gysylltu â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig; a**
**b. cymeradwyo gwerthu'r tir i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig a'i waredu os gellir sicrhau cytundeb i brynu o fewn tri mis.**
**(iii) Os na ellir cyflawni (ii) uchod o fewn tri mis, cymeradwyo gwerthu'r tir ar y farchnad agored heb nodi unrhyw ddefnyddion a ffefrir.**
**(iii) Bod unrhyw dderbyniad cyfalaf o waredu hen safle'r cartref gofal ym Mhenparcau yn cael ei glustnodi i'w fuddsoddi yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer cartrefi preswyl a reolir gan y Cyngor.**

***(I) Rheswm dros y penderfyniad:-***
***(II) Gwaredu ased dros ben.***

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
*Gofynnodd cynrychiolydd Fforwm Gofal Henoed Gogledd Ceredigion am ganiatâd i annerch y cyfarfod o dan y telerau a'r amodau a bennir yn y Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd. Cytunodd y Cadeirydd â'r cais hwn. Cafodd Aelodau lleol hefyd gyfle i siarad.*

*Ar ôl trafod, cytunodd aelodau'r Pwyllgor i argymell bod y Cabinet yn:*
*1. gohirio symud ymlaen i werthu Bodlondeb am chwe mis o ystyried y sefyllfa bresennol o ran y coronafeirws;*
*2. yna yn dilyn y cyfnod hwnnw, bod y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a Chymunedau Iachach yn ailystyried dyfodol nyrsio henoed bregus eu meddwl (EMI) yng Ngheredigion.*

*Eglurodd y Prif Weithredwr y byddai'r Cabinet yn ystyried argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn ei gyfarfod y diwrnod canlynol (17 Mawrth 2020) oherwydd y sefyllfa a oedd yn datblygu o ran COVID-19 a'r posibilrwydd na châi cyfarfodydd pellach eu cynnal am beth amser.*

*Ar ôl ystyried a thrafod, cytunodd y Cabinet y byddai penderfyniad C161 a wnaed ar 25 Chwefror 2020 yn sefyll ac fe'i gweithredwyd ar unwaith. Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai penderfyniad C161 yn dod i rym ar unwaith a bod y drefn galw-i-mewn wedi dod i ben.*

# Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach saith gwaith yn ystod 2019/2020.




Y prif faterion a drafodwyd

Ar ddechrau'r flwyddyn fwrdeistrefol, bu'r Pwyllgor yn ystyried y camau i lunio Blaenraglen Waith Trosolwg a Chraffu 2019/2020. Cafodd y flaenraglen waith ei monitro a'i diweddaru ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor fel eitem sefydlog ar yr agenda.

Daeth y Rheolwr Gwasanaeth – Sicrhau Ansawdd, Gwasanaethau Plant a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Porth Ceredigion i gyfarfodydd y Pwyllgor yn rheolaidd i gyflwyno Adroddiadau Rheoli Perfformiad chwarterol y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol sy'n cynnwys safonau cenedlaethol a lleol, a'r targedau a ddefnyddir i fesur canlyniadau plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a yw hawliau dynol y plentyn/person ifanc wedi'u tramgwyddo mewn unrhyw ffordd ac, os felly, mae'n ystyried atgyfeirio'r achos at CAFCASS Cymru.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Cafodd pwysigrwydd y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ei gydnabod, ac roedd yr Aelodau'n falch o gael sicrwydd bod anghenion plant sy'n derbyn gofal yn cael eu bodloni a'u gwella'n barhaus. Bu i'r Aelodau longyfarch staff y gwasanaeth, a bu iddynt ddiolch iddynt am eu hymroddiad a'u gwaith caled. Yn ystod y drafodaeth, cynigiwyd a chytunwyd y byddai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu yn cynnal cyfarfod ar y cyd i ystyried cyllideb ysgolion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, ynghyd ag argaeledd gofalwyr maeth sy'n siarad Cymraeg i blant sy'n siarad Cymraeg, gan gynnwys y cymorth sydd ar gael mewn ysgolion i blant sy'n derbyn gofal.*

*Nododd Rheolwr y Gwasanaeth fod y mentrau ataliol sydd ar waith yn y sir yn llwyddiannus iawn. Yng Ngheredigion y mae'r nifer leiaf o blant y mae angen iddynt dderbyn gofal yng Nghymru. Mae iechyd ac addysg plant sy'n derbyn gofal yn dda.*

*Cynhelir adolygiadau, a'r rheini yn unol â'r amserlen benodedig. Mae'r drefn o gofnodi ymweliadau wedi gwella, ac mae'n parhau i wella. Mae'r wybodaeth hon yn cyfrannu at sicrhau bod yr Aelodau'n cyflawni eu dyletswyddau fel rhieni corfforaethol.*

*Nododd yr Aelodau eu pryderon o ran yr angen i wneud mwy o waith i wella canlyniadau'r rhai sy'n gadael gofal, a bu iddynt gytuno i gael adroddiad pellach mewn cyfarfod yn y dyfodol ac i argymell bod y Cabinet yn:*

- *Ysgrifennu llythyr at benaethiaid holl ysgolion Ceredigion i atgoffa'u staff a'u cyrff llywodraethu o'u cyfrifoldebau o ran iechyd a lles plant sy'n derbyn gofal.*

Ar ôl ystyried cyllideb ddrafft 2019/20 ym mis Ionawr 2019, sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i bwyso a mesur y costau sydd ynghlwm wrth blant a leolir mewn cartrefi preswyl.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
*Ar ôl trafod, roedd yr Aelodau'n fodlon bod y gweithdrefnau a'r prosesau cywir ar waith a bod lles y plant yn flaenoriaeth strategol.*

*Cyflwynwyd adroddiad adborth i aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach, ac fe gytunodd yr Aelodau i argymell bod y Cabinet yn:*

- *Cadw mewn cof pan fydd yn ystyried cyllidebau drafft yn y dyfodol y gall sefyllfaoedd newid o ddydd i ddydd o ran nifer y plant sy'n cael eu lleoli mewn cartrefi preswyl, ac y gall yr arian sydd ei angen i dalu am y lleoliadau hynny amrywio;*
- *Sicrhau pan fydd plentyn yn cyrraedd oedran oedolyn fod y cyfnod pontio mor esmwyth â phosibl, gan ystyried anghenion yr unigolyn;*
- *Ymchwilio i rannu adnoddau ag awdurdodau cyfagos;*
- *Sicrhau bod swyddogion yn parhau i ymweld â'r plant yn eu lleoliadau yn rheolaidd i fodloni'r gofynion statudol.*

*Cymeradwyodd y Cabinet argymhellion 1 i 4 uchod.*

*Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 13 Chwefror 2020, cyfarfu'r Aelodau i ystyried y gyllideb ddrafft yr oedd y Cabinet yn ei hargymell ar gyfer 2020/21. Croesawodd yr Aelodau'r papur ychwanegol yr oedd Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach wedi gofyn amdano a oedd yn egluro'r newidiadau i gyllideb y Gwasanaethau Plant a'r ffaith bod lleoliadau tu allan i'r sir bellach wedi'u symud i gyllideb y Grŵp Arweinyddiaeth fel eitem gorfforaethol.*

Yn ei gyfarfod ar 11 Gorffennaf 2019, derbyniodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach lythyr blynyddol Arolygiaeth Gofal Cymru a oedd yn adolygu perfformiad yr awdurdod lleol.

Roedd y llythyr yn crynhoi'r adolygiad o berfformiad Cyngor Sir Ceredigion o ran y modd y bu iddo gyflawni ei swyddogaethau statudol mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol. Roedd yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a dull yr Arolygiaeth o gefnogi

gwelliannau sy'n gynyddol seiliedig ar gydweithio ac ar gryfderau. Bwriedir i'r llythyr gynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaus.

Mae cynnwys y llythyr yn seiliedig ar arolygiad yr Arolygiaeth a'i gweithgareddau i werthuso perfformiad yn ystod y flwyddyn, fel a ganlyn:

- Adolygiad o hunanasesiad yr awdurdod lleol o ran plant sy'n derbyn gofal, a'r cyfarfod herio a gynhaliwyd yn ei sgil gyda swyddogion;
- Gweithgareddau i ymgysylltu â phlant a gofalwyr, a thrafodaethau â'r awdurdod lleol fel rhan o'r rhaglen thematig Plant sy'n Derbyn Gofal;
- Adolygiad o'r adroddiad hunanwerthuso o ran hybu annibyniaeth ac atal anghenion oedolion hŷn (65+) rhag dwysáu;
- Gweithgarwch penodol yn yr awdurdod lleol o ran gwasanaethau i blant a gwasanaethau i oedolion;
- Arolygiad Arolygiaeth Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru o'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**

*Roedd aelodau'r Pwyllgor yn falch o gael adroddiad mor gadarnhaol ac roeddent am longyfarch y Tîm dan sylw, a chanmol eu gwaith caled a'u hymroddiad i'w gwaith o ddydd i ddydd.*

Ar 18 Medi 2019, croesawyd Heather West, y Swyddog Datblygu Gofalwyr, i gyfarfod y Pwyllgor i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Grŵp Gofalwyr Rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru ar gyfer 2018-19.

CARERS WELCOME

Roedd yr adroddiad yn crynhoi gweithgarwch Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi croesawu a chymeradwyo'r adroddiad.

Tynnodd y Swyddog Datblygu Gofalwyr sylw at y cynnydd a wnaed yn ystod 2018-19 a'r prif ddatblygiadau:

- Cychwyn cynllun aelodaeth rhanbarthol Cyflogwyr i Ofalwyr, a sefydlu grŵp llywio ffurfiol i gefnogi'r broses o roi'r cynllun ar waith;
- Cwblhau trydydd cam cynllun peilot Cydnerthedd a Llesiant Gofalwyr yng Ngheredigion;
- Cyflwyno cwrs e-ddysgu newydd cenedlaethol Gofal Cymdeithasol Cymru ar Ymwybyddiaeth o Ofalwyr;

- Datblygu fframwaith ac offeryn archwilio sicrwydd ansawdd asesiadau o anghenion gofalwyr;
- Nodi dulliau newydd ac arloesol o ddarparu gwasanaethau seibiant;
- Lansio'r cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr ar ei newydd wedd.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Roedd yr Aelodau'n croesawu'r cyfle i drafod y mater hwn, gan gynnwys:*

1. *Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gymryd camau strategol newydd. Disgwylir cyhoeddiad ynghylch y cynllun cyn diwedd y flwyddyn. Bydd seibiant yn rhan fawr o'r cynllun.*
2. *Mae gwaith yn mynd rhagddo mewn ysgolion a cholegau i hyrwyddo'r proffesiwn gofal, gan dynnu sylw at y cyfleoedd niferus sydd ar gael ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae disgyblion wedi dangos cryn ddiddordeb yn y cyfleoedd gyrfa hyn.*
3. *Nodwyd bod yn well gan lawer o ofalwyr beidio â chael eu cydnabod fel gofalwyr. Mae'r Gwasanaeth yn dal i geisio creu amgylchedd mwy cyfforddus i sicrhau nad yw gofalwyr mor gyndyn o ofyn am gymorth.*
4. *Mae nifer o sefydliadau gofal y sir yn y trydydd sector wedi gwneud cais i gael arian grant gan Gofalwyr Cymru a'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr sydd wedi cael arian i helpu i godi proffil gofalwyr.*
5. *Mae'r Gwasanaeth yn annog gofalwyr i gyflawni asesiadau o'u hanghenion mewn digwyddiadau fel diwrnodau hawliau gofalwyr. Maent yn cael gwybod am eu hawliau, er enghraifft yr hawl i'r lwfans gofalwr a'r lwfans gweini.*
6. *Mae prinder gweithwyr gofal yn her ledled y DU. Mae angen recriwtio a chadw staff yn y sir a sicrhau bod modd i rai gofalwyr ofalu a pharhau i weithio hefyd.*
7. *O ran sefyllfaoedd trawsffiniol, gall siroedd drafod a threfnu gofal gyda'i gilydd. Bydd y gofalwr yn cael cymorth gan ei awdurdod lleol a bydd y sawl sy'n cael gofal yn cael pecyn gofal gan ei sir ei hun.*
8. *Pwysleisiwyd bod y gwasanaeth gofal 72 awr a ddarperir yn Sir Gaerfyrddin yn fodel y mae gwir angen ei ddefnyddio yng Ngheredigion.*

*Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i'r Swyddog Datblygu Gofalwyr am ei chyflwyniad.*

- *Cytunodd aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach i nodi Adroddiad Blynyddol Grŵp Gofalwyr Rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru.*

Cyflwynodd Heather West, y Swyddog Datblygu Gofalwyr, Adroddiad Blynyddol Uned y Gofalwyr ar gyfer 2018-19 hefyd i roi gwybod i'r Aelodau am yr hyn a gyflawnwyd gan yr Uned a'r cynnydd a wnaed o ran ei thargedau a'i hamcanion yn ystod 2018-19.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn dal i fod wedi ymrwymo i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i wella bywydau gofalwyr, ac i fynd ati'n barhaus i wella'r cymorth a'r gwasanaethau a ddarperir i ofalwyr Ceredigion, ynghyd â'r gydnabyddiaeth o'u cyfraniad. Mae'r Ddeddf yn diffinio gofalwr fel "person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl". Mae'r diffiniad hwn yn dileu'r gofyniad bod rhaid i ofalwyr fod yn darparu swm sylweddol o ofal yn rheolaidd.

Tynnwyd sylw at y prif uchafbwyntiau, gan gynnwys gwobr aur y cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr. Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod Uned Gofalwyr Ceredigion wedi ennill gwobr aur y cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Ar ôl gwrando ar y cyflwyniad am yr adroddiad, cododd y pwyntiau a ganlyn yn ystod y drafodaeth:*

1. *Mae angen mynd i'r afael â'r problemau sy'n wynebu defnyddwyr cadeiriau olwyn pan fyddant yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a threnau yn benodol. Nodwyd bod Grŵp Gorchwyl a Gorffen bach yn ymchwilio ar hyn o bryd i hygyrchedd trafnidiaeth ac yn chwilio am atebion. Mae Llywodraeth Cymru hefyd mewn trafodaethau â Thrafnidiaeth Cymru.*
2. *Dylai gwybodaeth fod ar gael ym mhob clinig ar hyd ffiniau Ceredigion, gan fod y cytundeb yn datgan ei bod yn ddyletswydd ar feddygfeydd i gadw gwybodaeth.*
3. *Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd â Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion er mwyn rhoi darlun cyfannol o'r cymorth sydd ar gael.*
4. *Mae digwyddiadau'r Diwrnod Hawliau Gofalwyr ac Wythnos y Gofalwyr yn cael eu cynnal mewn gwahanol leoliadau bob blwyddyn er mwyn ceisio cyrraedd cymaint o bobl â phosibl. Mae'r gwasanaeth yn paratoi rhagor o ddigwyddiadau er mwyn lledaenu cymaint o wybodaeth â phosibl gan gadw'r adnoddau staffio mewn cof.*
5. *Mae'r gwasanaeth yn bwriadu cyflwyno'r cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr mewn ysgolion ledled Ceredigion yn ystod yr hydref.*

*Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i'r Swyddog Datblygu Gofalwyr a'i thîm am y gwaith rhagorol y maent yn dal i'w wneud. Ar ôl trafod, cytunodd y Pwyllgor i nodi Adroddiad Blynyddol Uned Gofalwyr Cyngor Sir Ceredigion 2018-19 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol.*

Yn yr un cyfarfod, bu Rhian Rees, Rheolwr Dechrau'n Deg, yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol i roi diweddariad am y rhaglen Dechrau'n Deg (gan gynnwys Allgymorth) yng Ngheredigion a'i chyfraniad at Wasanaethau Ymyrraeth Gynnar ac Ataliol a'r Gymraeg, ac i roi gwybod i'r Aelodau am y gwaith i liniaru effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod drwy feithrin cydnerthedd.

Tynnwyd sylw at y prif bethau a gyflawnwyd gan y rhaglen yn ystod y flwyddyn, ynghyd â datblygiadau o ran y gwasanaeth.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Sicrhawyd cyllid pellach i gefnogi'r gwaith o integreiddio systemau'r blynyddoedd cynnar. Bydd hyn yn cael ei gyflawni ar sail ranbarthol mewn partneriaeth â Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, ond bydd y modelau gweithredu yn amrywio ychydig yn y tair sir.*

*Fel rhan o'r gwaith hwn, mae ymchwil yn mynd rhagddi i gryfderau a gwendidau'r ystod bresennol o wasanaethau i deuluoedd a phlant, ac mae dulliau a fyddai'n sicrhau bod ymatebion o ansawdd uchel a chyson yn cael eu cynnig ar draws y sir – ni waeth ble mae pobl yn byw – yn cael eu pwyso a'u mesur.*

*Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i Reolwr Dechrau'n Deg am ei hadroddiad rhagorol.*

*Ar ôl trafod, cytunodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach i nodi gwaith Dechrau'n Deg ar draws y sir a'r cyfraniad y mae'r rhaglen yn ei wneud o ran canlyniadau nifer sylweddol o deuluoedd, y Gymraeg, a mynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i nodi'r rhaglen waith gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu Systemau Integredig ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar.*

Yn y cyfarfod ar 13 Ionawr 2020, bu'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Ceredigion yn cyflwyno adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad am y broses o roi'r diwygiad i Drefniadau Diogelu Rhyddid y Ddeddf Galluedd Meddyliol ar waith.

Dywedodd y bydd cyflwyno'r newidiadau yn cael effaith sylweddol ar y Cyngor a'i allu i sicrhau ei fod yn bodloni ei swyddogaethau statudol. Er mai'r bwriad yw pontio i'r ddeddfwriaeth newydd dros gyfnod o flwyddyn, bydd angen cyflawni cryn dipyn o waith i sicrhau bod popeth yn ei le i fodloni gofynion y Ddeddf ddiwygiedig ym mis Hydref 2020.

Nodwyd nad yw'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, y rheoliadau na'r canllawiau wedi'u cyhoeddi hyd yma. Fodd bynnag, mae paratoadau ar y gweill ac mae aelod staff wedi'i glustnodi i arwain ar y mater hwn.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Yn ystod y drafodaeth, nodwyd bod y llwyth gwaith sy'n aros i gael ei gwblhau yn cael ei fonitro'n rheolaidd ac yn gyson i sicrhau ei fod yn cael ei reoli'n effeithiol. Mynegodd un o'r cynghorwyr bryder am swm y gwaith sy'n aros i gael ei gwblhau. Dywedodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Ceredigion y bydd y penderfyniad a ddylid rhoi'r llwyth gwaith hwn ar y gofrestr risg yn cael ei ohirio am y tro am nad yw'n wybyddus hyd yma beth fydd gofynion y gwasanaeth ac a fydd angen ei ailfodelu.*

*Tynnodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Ceredigion sylw at yr angen i wreiddio'r Ddeddf Galluedd Meddyliol hyd yn oed ymhellach mewn arferion bob dydd, ynghyd â'r angen i ganolbwyntio ar arferion gwaith cymdeithasol. Mae argaeledd meddygon adran 12 yn dal i fod yn broblem ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth newydd yn datgan y bydd meddygon teulu'n gallu asesu galluedd. Byddai cymorth meddygon teulu lleol yn cyfrannu at ddiwallu'r angen am*

*feddygon sy'n siarad Cymraeg i gynnal asesiadau galluedd. Ar hyn o bryd, cwblheir asesiadau yn Gymraeg pan wneir cais am hynny.*

*Cytunodd aelodau'r Pwyllgor i gadw llygad ar y sefyllfa hon ac i gael adroddiad arall yn y dyfodol.*

*Yn ystod y drafodaeth, nodwyd bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydweithio'n agos â Bwrdd Iechyd Hywel Dda i bwyso a mesur sut y mae arian yn cael ei ddefnyddio a sut i fynd i'r afael â phroblemau nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen. Roedd strategaethau'n cael eu rhoi ar waith yn y Gwasanaeth Ailalluogi a'r Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol a fyddai'n lleddfu pryderon o ran cleifion oedrannus sy'n aros mewn gwelyau ysbyty hyd nes bod lle ar gael iddynt yn y cartref gofal o'u dewis.*

Cafodd aelodau'r Pwyllgor hefyd gyflwyniad am Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2018-19, a gofynnwyd iddynt nodi'r wybodaeth hanesyddol o ran y cyfnod hwn.




Eglurodd y swyddogion fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn ystod y cyfnod hwn, a bod cynnydd yn dal i gael ei wneud.

Roedd yr adroddiad yn disgrifio'r ffordd y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi perfformio yn ystod 2018-19 ac yn nodi blaenoriaethau 2019-20.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
*Pennodd y Pwyllgor faes y bydd yn ei ystyried ymhellach dros y misoedd nesaf ac yn ei ychwanegu at ei flaenraglen waith, sef:*
*Oedi wrth drosglwyddo gofal.*

Cyflwynodd Rheolwr Corfforaethol Diogelu'r Cyhoedd Adroddiad Cynnydd 2019 o ran Strategaeth Ansawdd Aer Ceredigion, gan dynnu sylw at y sefyllfa bresennol. Nodwyd bod canlyniadau'r sir ymysg y gorau yng Nghymru a bod y sir wedi cydymffurfio â'r holl safonau ac amcanion statudol cyfredol o ran ansawdd aer, a hynny erbyn y dyddiadau penodedig ac ym mhob lleoliad (gan gynnwys ar ymyl ffyrdd) yng Ngheredigion. Mae'r sir hefyd yn cydymffurfio â safonau mwy hirdymor a safonau dangosol o ran y llygryddion aer sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau.

Croesawodd yr Aelodau'r adroddiad cadarnhaol a'r cyfle i drafod.



Awgrymodd yr Aelodau y byddai'n fuddiol pe bai'r adroddiadau'n cynnwys ffigurau sy'n dangos tueddiadau ac yn cymharu ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol yn y dyfodol.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**

*Bu i'r Aelodau argymell y dylai'r Cabinet dderbyn yr argymhellion a ganlyn:*

*1. Parhau i fonitro ansawdd yr aer a materion cysylltiedig yng Ngheredigion, ac adrodd arnynt, a chyhoeddi adroddiad a gaiff ei ddiweddaru'n flynyddol ar wefan y Cyngor yn unol â gofynion statudol.*

*2. Gwneud argymhellion a fydd o gymorth wrth ddatblygu cyfundrefn fonitro ac adrodd ar ansawdd yr aer, gan adeiladu ar awgrymiadau a wnaed eisoes (h.y. cynyddu lefel y monitro yng nghyffiniau ysgolion ac mewn mannau prysur mewn trefi, gan gynhyrchu fersiwn talfyredig o'r adroddiad a rhoi crynodeb o'r prif ganlyniadau ar ddechrau'r adroddiad).*

*Yn ddibynnol ar ystyried yr argymhellion a ganlyn:*

*1. Cyhoeddi datganiad 'newyddion da' i'r wasg, yn cyhoeddi'r ffaith mai Ceredigion yw un o'r llefydd gorau yng Nghymru o ran ansawdd yr aer;*

*2. Rhoi ystyriaeth i'r posibilrwydd o ddatblygu Strategaeth yn y dyfodol;*

*3. Archwilio'r posibilrwydd o blannu mwy o goed ledled Ceredigion (mewn ardaloedd trefol a gwledig) yn y dyfodol (nid yw hyn yn rhan o gyfrifoldebau Diogelu'r Cyhoedd);*

*4. Bod ysgolion yn annog rhieni/gofalwyr sy'n gollwng eu plant yn yr ysgol a'u casglu oddi yno i beidio â gadael injan y car i redeg pan fyddant yn gwneud hynny – mae'r un peth yn wir am fysiau ysgol;*

*5. Bod mwy o wybodaeth am nanoronynnau yn cael ei rhannu mewn cyfarfod yn y dyfodol.*

*Cytunodd y Cabinet i bwyso a mesur argymhellion 2, 4 a 5 y Pwyllgor. O ran argymhelliad 1, cyhoeddwyd datganiad 'newyddion da' i'r wasg ar 29 Ionawr 2020 (ceir copi ohono ar dudalen nesaf yr adroddiad hwn). O ran argymhelliad 3, gan fod gan goed a choetiroedd mewn trefi a dinasoedd, ac o'u hamgylch, rôl hollbwysig i'w chwarae o ran hybu cymunedau cynaliadwy, mae corff cynyddol o ymchwil wedi dangos dros y blynyddoedd diwethaf fod coed yn dod ag ystod eang o fuddion i unigolion ac i'r gymdeithas gyfan. O'r herwydd, cafodd nifer o goed eu plannu ledled Ceredigion.*

## Ansawdd aer yng Ngheredigion yn parhau i fod gyda’r gorau yng Nghymru

**Mae Adroddiad Cynnydd wedi dangos bod ansawdd aer yng Ngheredigion yn parhau i fod gyda'r gorau yng Nghymru ar sail tri dangosydd ansawdd aer Llywodraeth Cymru. Cymeradwywyd yr adroddiad gan Gabinet y cyngor ar 28 Ionawr 2020.**

**Caiff ansawdd aer ei fonitro yng Ngheredigion ar gyfer pedwar o'r llygryddion aer allweddol, a chaiff y canlyniadau eu cymharu â safonau ac amcanion cenedlaethol ac Ewropeaidd.**

**Mae'r adroddiad yn dangos y cydymffurfiwyd â'r holl Safonau ac Amcanion Ansawdd Aer Statudol presennol ym mhob lleoliad yng Ngheredigion ac nid oes angen rheolaeth bellach ar unrhyw ardaloedd. Mae tueddiadau'n dangos bod crynodiadau rhai o'r prif lygryddion aer yn cwympo yn y sir.**

**Gareth Lloyd yw'r aelod Cabinet sy'n gyfrifol am Ddiogelu'r Cyhoedd. Dywedodd: "Mae pobl yn ymweld â Cheredigion am ei thirweddau hardd a’i hawyr iach, felly mae'n wych cael y dystiolaeth bod gan Geredigion rai o'r ansawdd aer gorau yng Nghymru."**

**Mae'r cyngor wedi lleihau ei allyriadau carbon 42% ers 2008, gan arbed £4 miliwn i’r cyngor i'w ailfuddsoddi mewn gwasanaethau.**

**Bydd Cynllun Rheoli Carbon i leihau allyriadau carbon a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn parhau i gael ei ddatblygu yng Ngheredigion gyda'r nod o sicrhau bod allyriadau carbon y cyngor yn sero net erbyn 2030. Mae hyn yn cyd-fynd â tharged Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru.**

**29/01/2020**

---

Daeth Martyn Palfreman, Pennaeth Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru, a Peter Skitt, Cyfarwyddwr Sirol Ceredigion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, i un o gyfarfodydd y Pwyllgor i gyflwyno adroddiad am y Rhaglen Drawsnewid Ranbarthol ar gyfer Gorllewin Cymru Iachach.

Ym mis Mawrth 2019, dyfarnwyd £11.9 miliwn i Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru gan Gronfa Trawsnewid Llywodraeth Cymru sy’n darparu adnoddau er mwyn gweithredu’r cynllun cenedlaethol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, sef Cymru Iachach.

Bydd yr arian hwn yn cefnogi’r broses o roi tair rhaglen drawsnewid fawr ar waith ar draws y rhanbarth fel y nodir yn y cynnig rhanbarthol, Gorllewin Cymru Iachach.

Esboniodd Martyn Palfreman y rhaglenni a ariannwyd:

**Rhaglen 1:** Gofal rhagweithiol a alluogir gan dechnoleg – bydd yn darparu asesiadau lles wedi'u teilwra, galwadau lles rhagweithiol, a chefnogaeth gymunedol ychwanegol i tua 5,000 o unigolion bregus ar draws y rhanbarth.
**Rhaglen 3:** Integreiddio carlam, cyson – bydd yn sefydlu ymyriadau ymateb cyflym amlbroffesiynol dros gyfnod dwys i unigolion mewn argyfwng yn eu cartrefi i sicrhau nad oes angen eu derbyn i'r ysbyty.
**Rhaglen 7:** Creu Cysylltiadau i Bawb – bydd yn datblygu swyddi cysylltwyr cymunedol ar draws y rhanbarth, gan hybu gwirfoddoli gweithgar a chymunedau caredig a chefnogi rhaglenni wedi'u teilwra sy'n pontio'r cenedlaethau i leihau arwahanrwydd cymdeithasol.

Roedd rhaglen Gorllewin Cymru Iachach hefyd yn cynnwys pum rhaglen arall na ddyfarnwyd arian iddynt yn y rownd gyntaf. Cyflwynwyd ceisiadau diwygiedig gwerth cyfanswm o £6.2 miliwn ar gyfer y rhaglenni hyn ym mis Mai 2019, ac maent yn dal i aros i'r Gweinidog benderfynu arnynt. Rhoddwyd diweddariad am hynt y rhaglenni yng Ngheredigion. Mae cynlluniau manwl ynghlwm wrth bob rhaglen. Nodwyd nad oedd pob maes wedi cyrraedd yr un man ond y byddent yn cychwyn cyn i'r arian ddod i ben. Bydd y rhaglen yn destun gwerthusiad annibynnol sy'n un o amodau'r arian. Bydd tystiolaeth dda yn hwyluso ceisiadau i gael arian yn y dyfodol. Nodwyd y bydd y prif ddangosyddion perfformiad yn cael eu dosbarthu pan fydd model Ceredigion wedi'i gwblhau.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
*Ar ôl trafod, cynigiwyd y dylid estyn gwahoddiad i Martyn Palfreman a Peter Skitt ddod i un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol er mwyn i'r aelodau gael gwybod am hynt y rhaglen, a'i fonitro.*

*Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i Martyn Palfreman a Petter Skitt am ddod i'r cyfarfod.*

Ar 15 Ionawr 2020, cynhaliwyd cyfarfod arbennig ar y cyd rhwng aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu, yn unol â'r hyn y cytunwyd arno mewn cyfarfod blaenorol.

Bu'r pwyllgorau'n trafod yr adroddiad am y prosiect Mewngymorth Iechyd Meddwl mewn Ysgolion. Ym mis Gorffennaf 2017, dywedwyd bod Ysgrifenyddion Cabinet Llywodraeth Cymru dros Addysg a thros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon wedi cytuno i gynnal cynlluniau peilot i dreialu darparu mewngymorth iechyd meddwl mewn ysgolion drwy gyfrwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
*Roedd y Pwyllgor yn fodlon iawn â'r gwaith a oedd wedi mynd rhagddo hyd yma;*

*Cytunodd yr Aelodau i argymell bod y Cabinet yn:*
- *ysgrifennu at Ysgrifenyddion Cabinet Llywodraeth Cymru dros Addysg a thros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon i'w hannog i ystyried darparu cyllid rheolaidd yn y dyfodol i gefnogi'r canlyniadau gorau posibl i blant a phobl ifanc yn llwyr yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.*

*Cytunodd y Cabinet â'r argymhelliad ac mae wedi cadarnhau iddo anfon llythyr at Ysgrifenyddion Cabinet Llywodraeth Cymru dros Addysg a thros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon. Mae'r Aelod Cabinet yn aros i gael ymateb nawr.*

Bu'r Aelodau hefyd yn trafod adroddiad am y trefniadau i sicrhau bod gofalwyr maeth yn cynorthwyo'r plant y maent yn gofalu amdanynt i ddefnyddio'r Gymraeg, a'r anogaeth a'r cymorth a roddir i ofalwyr maeth er mwyn iddynt ddysgu Cymraeg. Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y cymorth y mae gofalwyr maeth yn ei roi i blant sy'n derbyn gofal, ac i drafod gofynion addysgol plant mewn gofal yn unol â chais aelodau'r Pwyllgor. Rhoddodd Rheolwr Gwasanaeth Sicrhau Ansawdd y Gwasanaethau Plant wybodaeth i'r Aelodau am y sefyllfa bresennol a'r camau y bydd y gwasanaeth yn eu cymryd nesaf.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Roedd yr Aelodau'n falch o gael sicrwydd bod gwaith yn mynd rhagddo o hyd i gynorthwyo gofalwyr maeth er mwyn iddynt gefnogi datblygiad dwyieithog plant sy'n derbyn gofal. Roedd yr Aelodau'n cytuno ei bod yn bwysig eu bod hwythau hefyd yn mynd ati yn eu cymunedau i hyrwyddo'r angen i gael mwy o ofalwyr maeth yn y sir.*

Bu'r Aelodau'n ystyried adroddiad am y cymorth sydd ar gael i blant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion, a hynny yn unol â chais aelodau'r Pwyllgor. Cyflwynwyd yr adroddiad i amlinellu'r cymorth sydd ar gael i blant sy'n derbyn gofal, ac i ddarparu gwybodaeth am gyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal. Darparwyd yr wybodaeth a ganlyn ar ffurf cyflwyniad PowerPoint:

- Trosolwg ar blant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion
- Y Grant Datblygu Disgyblion
- Dyraniad ysgolion Ceredigion
- Trosolwg ar anghenion dysgu ychwanegol plant sy'n derbyn gofal
- Data cyrhaeddiad
- Y camau nesaf

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Cytunodd yr Aelodau i nodi'r sefyllfa bresennol o ran y cymorth sydd ar gael i blant sy'n derbyn gofal, ynghyd â'u cyrhaeddiad academaidd yn 2018/2019.*

Yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2020, bu aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach yn ystyried adroddiad am y newidiadau i'r modd y bydd y cynnig nofio am ddim i bobl ifanc dan 16 oed a phobl dros 60 oed yn cael ei ariannu a'i ddarparu.

Cafodd y Fenter Nofio am Ddim ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a'i gweinyddu gan Chwaraeon Cymru ers 2003. Yn 2015, newidiwyd y cynllun a gostyngodd y cyllid yn sylweddol. Gostyngodd grant Ceredigion o £74,375 i £45,300, gan arwain at leihau'r cynllun nofio am ddim i rai dros 60 oed rywfaint, a chwtogi'r cynllun nofio am ddim i bobl ifanc dan 16 oed yn sylweddol.

Yn dilyn hynny, comisiynodd Chwaraeon Cymru adolygiad annibynnol o’r cynllun nofio am ddim ac fe’i dosbarthwyd ym mis Medi 2018. Roedd yr adolygiad yn cyflwyno dadl gref dros newid y cynllun, gan dynnu sylw at rai pryderon o ran y dyfodol. Ers hynny, bu Chwaraeon Cymru’n cydweithio’n agos â Llywodraeth Cymru i bennu dull newydd o ddarparu’r cynllun nofio am ddim.

Darparwyd gwybodaeth gyfredol i aelodau’r Pwyllgor am y cyllid, ac fe roddwyd gwybod iddynt y byddai’r cyllid a ddyrennir ledled Cymru’n haneru’r flwyddyn nesaf. Mynegodd yr Aelodau siom y byddai’r cyllid yn haneru.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Ar ôl trafod, bu i’r Aelodau argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo’r cynigion a nodwyd yn yr adroddiad.*

Yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2020, bu aelodau’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach yn ystyried diweddariad am gynlluniau Chwaraeon Cymru i greu Partneriaeth Chwaraeon Ranbarthol.

Ar ôl trafodaeth faith, gofynnwyd i’r Aelodau ystyried yr argymhelliad a ganlyn:

- Rhannu gwybodaeth a chael barn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach am y newidiadau arfaethedig i drefniadaeth Chwaraeon Cymru.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Bu i aelodau’r Pwyllgor argymell bod y Cabinet yn:*

- *Sicrhau bod Ceredigion yn cael ei chynnwys yn y bartneriaeth newydd, yn ddibynnol ar yr ystyriaethau a ganlyn:*

1. *Bod yr adroddiad yn dweud mai ychydig o adborth a gafwyd i’r cynllun peilot yn y Gogledd. Mae’r Pwyllgor yn awgrymu bod angen cynnwys adborth;*
2. *Bod gwell cysylltiadau seilwaith rhwng y Gogledd, y Canolbarth a’r De. Nid yw cysylltedd mor hawdd â hynny yng Ngheredigion a gallai hyn fod yn rhwystro rhai pobl rhag cymryd rhan mewn rhai gweithgareddau chwaraeon;*
3. *Bod yr Aelodau’n teimlo’n gryf ac am bwysleisio nad ydynt yn cefnogi gostyngiad sylweddol yn y ddarpariaeth chwaraeon yng Ngheredigion;*
4. *Bod yr Aelodau o’r farn nad oes digon o ystyriaeth wedi ei rhoi hyd yma i ardaloedd gwledig iawn o’u cymharu ag ardaloedd trefol;*
5. *Sicrhau bod digon o ymgysylltiad â chlybiau, cymdeithasau a sefydliadau perthnasol eraill yng Ngheredigion.*

*Cytunodd aelodau’r Cabinet i gymeradwyo’r cais i barhau i drafod â Chwaraeon Cymru i sicrhau’r cynnig a’r datrysiad gorau posibl i Geredigion a’r Canolbarth. Cytunodd aelodau’r Cabinet hefyd i ystyried argymhellion 1 i 5 a amlinellir uchod mewn unrhyw drafodaethau yn y dyfodol.*

Daeth swyddogion i’r cyfarfod i gyflwyno adroddiad yn sgil cais yr Aelodau i gael diweddariad am y rhaglen tai fforddiadwy/hygyrch. Roedd yr Aelodau wedi gofyn am yr wybodaeth a ganlyn:

- Sicrhau bod digon o dai cymdeithasol ar gyfer yr henoed, yr anabl a theuluoedd ifanc i’w galluogi i aros yn eu cymunedau er mwyn monitro hynt y Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol a'r gwaith a wneir i sicrhau bod tai fforddiadwy, hygyrch ac arbenigol yn cael eu datblygu mewn ffordd ragweithiol

yn y sir i fodloni anghenion y boblogaeth leol.

Mynegodd yr Aelodau bryderon nad oes digon o dai hygyrch ar gael yn Aberystwyth, a dywedodd y swyddogion eu bod yn gwybod am y pryderon hyn. Bu i'r swyddogion gadarnhau y bydd mwy o unedau ar gael yn Aberystwyth yn fuan ac y bydd hyn yn lleihau'r rhestr aros. Roedd yr Aelodau'n falch o glywed y bydd y rhestr aros yn lleihau o'r herwydd yn y dyfodol agos.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y pwyntiau a ganlyn:

- Bod y posibilrwydd o ddefnyddio adeiladau ysgol nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach wedi'i ystyried fel rhan o'r protocol gwaredu asedau, ond na fyddai'n gosteffeithiol i'r Cyngor droi hen adeiladau ysgol yn gartrefi. Fodd bynnag, bwriedir ystyried y posibilrwydd o addasu cartrefi a swyddfeydd gwag yn fflatiau ar gyfer llety brys;
- Nad oes llawer o gapasiti i ddatblygu tai mewn rhai trefi a phentrefi oherwydd bod angen gwella systemau carthffosiaeth Dŵr Cymru'n sylweddol;
- Y gallai'r gwasanaeth ystyried y posibilrwydd o rentu cartref y mae ei berchennog wedi dewis symud i lety gwarchod i sicrhau nad yw'r cartref yn wag;
- Bod pryderon wedi'u mynegi am rai o drefi'r sir lle mae gwasanaethau wedi lleihau oherwydd bod llai o bobl yn dewis byw ynddynt.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
*Cytunodd y Pwyllgor ar y rhaglen waith eang sy'n ffurfio'r Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol, rhaglen sy'n anelu at gynyddu nifer y tai hygyrch, fforddiadwy ac arbenigol sydd ar gael yn y sir i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol.*

*Serch hynny, mynegodd yr Aelodau bryderon am nifer y bobl sydd ar y rhestr aros i gael tai ar hyn o bryd.*

Yn ogystal, cyflwynwyd adroddiad i roi diweddariad am y trefniadau sydd ar waith i ddefnyddio tai gwag unwaith eto, ynghyd ag adroddiad am ymchwiliad Llywodraeth Cymru i eiddo gwag a'r adroddiad a baratowyd yn sgil yr ymchwiliad hwnnw.

Dywedwyd bod dros 1000 eiddo gwag yn y sir ar hyn o bryd. Mae'r gwasanaeth yn ceisio cydweithio â pherchnogion eiddo a chymryd camau gorfodi lle bo angen i sicrhau bod modd defnyddio eiddo gwag unwaith eto. Mae'n cydweithio'n agos â swyddogion adfywio'r economi gyda golwg ar gytuno ar gynllun gweithredu.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
*Yn ystod y drafodaeth, mynegodd un o'r Aelodau bryder ynghylch diffyg capasiti o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â thai gwag. Nodwyd nad yw llwyth gwaith Swyddog Diogelu'r Cyhoedd ond yn caniatáu iddi ymdrin â materion tai gwag am oddeutu hanner diwrnod yr wythnos.*

*Ar ôl ystyried, roedd yr Aelodau'n fodlon â'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag eiddo gwag sy'n peri problemau, a bu iddynt nodi argymhellion ymchwiliad Llywodraeth Cymru i eiddo gwag a'r goblygiadau posibl pe caent eu rhoi ar waith yng Ngheredigion. Fodd bynnag, bu i'r Aelodau hefyd fynegi pryderon am*

*gosteffeithlonrwydd a phrinder adnoddau staff, ynghyd â'r angen i gael swyddog eiddo gwag dynodedig.*

*Gwnaed yr argymhellion a ganlyn i'r Cabinet:*

1. *Nid oes gan Gyngor Sir Ceredigion swyddog eiddo gwag dynodedig. Gan fod adnoddau'n brin a blaenoriaethau'n gwrthdaro, mae'r amser sy'n cael ei neilltuo i fynd i'r afael ag eiddo gwag yn gyfwerth â hyd at hanner diwrnod yr wythnos, llai weithiau. Mae'r Aelodau'n argymell bod y Cabinet yn ystyried cyflogi swyddog eiddo gwag dynodedig ar gyfer yr Awdurdod, a:*
2. *Bod swyddogion yn cael eu hannog i ddefnyddio deddfwriaeth pan fo hynny'n briodol yn eu tyb nhw ac y dylai unrhyw arian sy'n cael ei hawlio gael ei ailfuddsoddi yn y gwasanaeth hwn. Er enghraifft, deddfwriaeth a gyflwynwyd yn 2014, sef Deddf Tai (Cymru) 2014 sy'n rhoi pŵer i'r cynghorau godi hyd at 200% o'r dreth gyngor ar eiddo sydd wedi bod yn wag am fwy na 12 mis.*

*Cytunodd y Cabinet i bwyso a mesur yr argymhellion. Roedd y swyddogion i fod i gael diwrnod cydweithio a hyfforddiant ymwybyddiaeth gyda chynrychiolwyr tai'r awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru, ond bu'n rhaid gohirio'r digwyddiad oherwydd sefyllfa Covid-19. Byddai ymgynghorydd allanol wedi hwyluso'r digwyddiad, ac yna byddai grŵp bach wedi gweithio ar gynllun gweithredu Ceredigion, gan gynnwys rhywfaint o'r cymorth sydd ei angen i roi'r cynllun ar waith. Bydd y digwyddiad yn cael ei ad-drefnu.*

Cyflwynwyd i aelodau'r Pwyllgor adroddiad am sefydliadau bridio cŵn ar ffurf Trosolwg Rheoleiddiol a oedd yn rhoi crynodeb o'r fframwaith presennol i reoleiddio sefydliadau bridio cŵn, ynghyd â braslun o'r broses o arolygu trwyddedau a'r opsiynau gorfodi sydd ar gael i swyddogion. Dywedwyd bod dwy brif ddarpariaeth statudol ar gael i reoleiddio sefydliadau bridio cŵn, sef:

- Deddf Lles Anifeiliaid 2006
- Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014.

Mae'r Awdurdod hefyd wedi pennu 19 amod ar drwyddedau, gan gynnwys yr uchod, ac mae holl fridwyr cŵn trwyddedig Ceredigion yn cael eu hasesu ar sail yr amodau hyn. Ar hyn o bryd, ceir 31 sefydliad bridio cŵn trwyddedig yn y sir. Tynnwyd sylw at y camau gorfodi a gymerwyd yn ddiweddar, ynghyd â'r heriau y mae'r gwasanaeth yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

Roedd yr Aelodau'n croesawu'r cyfle i gael trafodaeth. Ynddi, nodwyd bod y gwasanaeth yn ceisio cael ad-daliad mewn achosion lle mae'n dwyn erlyniad. Y llysoedd sy'n penderfynu ar lefel y ffioedd i'w had-dalu. Mae'r ffioedd a'r costau wedi newid eleni i adlewyrchu tâl am ymweliadau ychwanegol â sefydliadau bridio cŵn.

Nodwyd bod gwahanol swyddogion yn arolygu sefydliadau a bod rhaid i sefydliadau lenwi ffurflenni cais llawn i gael trwydded pan fydd eu trwyddedau'n dod i ben. Mae milfeddygon annibynnol o'r tu hwnt i'r sir yn arolygu sefydliadau. Cynhelir gwiriadau ar hap yn rheolaidd, yn enwedig mewn sefydliadau lle gall fod pryderon nad ydynt yn cydymffurfio.

Cyn cymryd camau gorfodi, mae’r gwasanaeth yn cydweithio’n agos â sefydliadau i’w helpu i wella ac i gydymffurfio â’r amodau.

Bu i’r Aelodau ddiolch i’r swyddogion am yr adroddiad ac am holl waith y gwasanaeth. Cydnabuwyd bod aelodau staff yn dod ar draws rhai achosion annifyr iawn o bryd i’w gilydd. Gofynnwyd i’r swyddogion gyflwyno adroddiad arall mewn cyfarfod yn y dyfodol ynglŷn â lles anifeiliaid ac amodau gwaith staff pan fyddant yn archwilio safleoedd.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Ar ôl ystyried yr adroddiad, cytunodd aelodau’r Pwyllgor i argymell:*

*1. Bod y Cabinet yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i danlinellu’r angen am gyllid ychwanegol i fynd i’r afael â’r materion sy’n deillio o fridio cŵn yn y siroedd hynny, megis Ceredigion, sydd â’r llwyth gwaith rheoleiddiol mwyaf.*
*2. Bod y dull presennol o addysgu a gorfodi yn cael ei gynnal a’i gefnogi.*
*3. Bod swyddogion yn parhau i ddod ag unrhyw newidiadau i amodau a rheoliadau trwyddedu at sylw'r Aelodau etholedig.*

*Cytunodd y Cabinet â’r tri argymhelliad ac mae’n aros i gael ateb gan Lywodraeth Cymru o ran argymhelliad 1.*

Ar 13 Chwefror 2020, bu’r Pwyllgor yn ystyried y gyllideb flynyddol. Bu aelodau’r Pwyllgor yn ystyried cyllidebau’r gwasanaethau hynny sy’n rhan o’i gylch gwaith, sef:

- Gwasanaethau Plant
- Gwasanaethau Oedolion
- Polisi a Pherfformiad – Diogelu’r Cyhoedd yn unig
- Dysgu Gydol Oes a Diwylliant – Hamdden yn unig

Cyflwynodd swyddogion a’r Aelod Cabinet perthnasol wybodaeth berthnasol am eu meysydd gwasanaeth.

Croesawodd yr Aelodau’r papur ychwanegol yr oedd y Cadeirydd wedi gofyn amdano ar ôl i’r papurau gael eu cyhoeddi. Roedd y papur hwnnw’n egluro’r newid i gyllideb y Gwasanaethau Plant a’r ffaith bod lleoliadau tu allan i’r sir wedi’u symud o dan gyllideb y Grŵp Arweinyddiaeth fel eitem gorfforaethol.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Ar ôl trafod, cytunodd yr Aelodau i argymell bod y Cabinet yn:*

1. *cymeradwyo cyllidebau’r meysydd gwasanaeth sy’n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor.*

*Mae’r Pwyllgor yn monitro’r goblygiadau i’r gyllideb drwy gydol y flwyddyn, ac mae’n cael diweddariadau ariannol rheolaidd pan fydd yn ystyried adroddiadau.*

Bu aelodau’r Pwyllgor hefyd yn ystyried newidiadau arfaethedig i’r Ffioedd a’r Taliadau sy’n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Ar ôl trafod, cytunodd yr Aelodau i argymell bod y Cabinet yn:*

1. *cymeradwyo'r Ffioedd a'r Taliadau arfaethedig.*

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor drosolwg ar wasanaethau camddefnyddio sylweddau ac alcohol y rhanbarth a Cheredigion, ac fe gafodd y Pwyllgor gyfle i bwyso a mesur adroddiad blynyddol diweddaraf Bwrdd Cynllunio Ardal Dyfed. Roedd y Pwyllgor wedi mynegi pryderon bod mwy a mwy o dystiolaeth o gamddefnyddio cyffuriau mewn rhai rhannau o Geredigion, ac roedd y Cadeirydd wedi gofyn am i wybodaeth ychwanegol benodol gael ei chyflwyno.

Cyflwynodd y Rheolwr Corfforaethol – Camddefnyddio Sylweddau Adroddiad Blynyddol 2018-19 Bwrdd Cynllunio Ardal Dyfed o ran Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at addysg ac ymwybyddiaeth, lleihau niwed, triniaeth, adfer, a pherfformiad yr ardal. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn falch o nodi bod ystadegau dangosyddion perfformiad allweddol Dyfed yn dda, gyda nifer o brosiectau'n cael eu rhoi ar waith ochr yn ochr â gwaith allgymorth.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Bu'r swyddog yn siarad am yr heriau sydd ar y gorwel, gan gynnwys cwblhau tendr a strategaeth newydd sy'n adlewyrchu strategaeth newydd Llywodraeth Cymru. Nodwyd y bydd cynllun busnes yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar ôl iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn graffu arno. Cynigiodd yr Aelodau y dylid ymgymryd â swm sylweddol o waith mewn ysgolion i ddarbwyllo plant a phobl ifanc i beidio ag arbrofi â sylweddau. Mynegodd yr Aelodau hefyd bryderon ynghylch camddefnydd difrifol o sylweddau yn y sir, ac fe gynigiodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi a Pherfformiad y gallai roi gwybod i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys am bryderon y Pwyllgor. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn y dyfodol i roi diweddariad am y pwyntiau a wnaed.*

Daeth swyddogion Dechrau'n Deg i'r cyfarfod i roi cyflwyniad diddorol am bwysigrwydd chwarae corfforol o ran datblygiad cynnar yr ymennydd, a hynny ar gais y Cadeirydd ar ôl iddo yntau a'r Swyddog Trosolwg a Chraffu ymweld â swyddogion Dechrau'n Deg ym Mhenparcau yn gynharach yn y flwyddyn.

Nodwyd iddo gael ei brofi bod chwarae corfforol yn bwysig o ran datblygu'r system synhwyraidd h.y. golwg, blas, clyw, arogl, cyffyrddiad, symudiad (y system festibwlar) a safle'r corff (propriodderbyniaeth), yn enwedig ymhlith babanod a phlant 0-7 oed.

JABADAO

Amlinellwyd y gweithgareddau y mae Dechrau'n Deg yn eu cynnal i helpu i ddatblygu synhwyrau plentyn, gan gynnwys chwarae yn yr awyr agored, chwarae

anniben, ioga, dawns a jabadao. Dangoswyd ffilm fer a oedd yn dangos plant ifanc yn ymateb yn gadarnhaol i jabadao.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Cafodd yr Aelodau eu calonogi o glywed ffeithiau mor drawiadol sydd wedi'u profi, a bu iddynt gytuno i gyflwyno'r argymhelliad isod i'r Cabinet.*

*Mae'r Aelodau'n argymell bod y Cabinet:*

1. *Yn gwneud ei orau glas i sicrhau bod arian Dechrau'n Deg yn dal i ddod i law gan Lywodraeth Cymru;*
2. *Yn tynnu sylw ledled y sir at bwysigrwydd chwarae corfforol a datblygu'r synhwyrau o ran iechyd ymennydd plant 0 i 7 oed, gan gynnwys yn yr ardaloedd hynny heb ganolfan Dechrau'n Deg.*

*Bydd yr adroddiad adborth yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn un o'i gyfarfodydd yn y dyfodol, a bydd ei benderfyniad yn cael ei nodi yn adroddiad blynyddol 2020/2021.*



Gofynnodd y Cadeirydd am wybodaeth benodol am gyfleusterau chwarae mynediad agored yng Ngheredigion, ac estynnodd wahoddiad i Cathryn Morgan, Cydlynydd Teuluoedd yn Gyntaf a Ffoaduriaid Syria, a Gill Byrne, RAY Ceredigion, gyflwyno adroddiad am chwarae mynediad agored.

Roedd astudiaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn dangos bod prosiectau chwarae:

• yr un mor effeithiol â rhaglenni addysg gorfforol a chwaraeon o ran hybu lefelau gweithgarwch corfforol, ac felly eu bod yn helpu i fynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant;

• yn cynorthwyo plant i fod yn fwy cydnerth drwy feithrin eu sgiliau emosiynol a hunanreolaeth gymdeithasol;

• yn rhoi cyfleoedd grymus i blant ymgysylltu'n gadarnhaol â'u hysgol, y gymuned ehangach, byd natur a'r amgylchedd;

• yn annog natur gymdogol, gwirfoddoli a gweithredu cymdeithasol, ac yn gwella cydlyniant cymunedol.

Yn unol â'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae, mae'n rhaid i'r Cyngor fynd ati bob tair blynedd i asesu nifer ac ansawdd ardaloedd chwarae'r sir, a llunio Cynllun Gweithredu Chwarae i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau. O ganlyniad i hyn, cafodd cysylltiadau eu creu rhwng cyfleoedd chwarae ac amryw o wasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys Cynllunio, Trafnidiaeth, Gwasanaethau Ysgolion, Cymorth i Deuluoedd, y Tîm Gofal Plant, y Gwasanaeth Ieuenctid, Chwaraeon a Hamdden, Ecoleg/Bioamrywiaeth, y Tîm Plant Anabl, Cered, a'r Tîm Iechyd a Diogelwch. Mae hyn wedi creu cyfleoedd i gydweithio, er enghraifft – prosiect 'Chwarae Actif' Ceredigion Actif i ddarparwyr Cymorth i Deuluoedd, a chynnwys ardaloedd chwarae yn Asesiad Seilwaith Gwyrdd Ceredigion.

Mae'n mynd yn anoddach cael gafael ar arian ar gyfer gwasanaethau, ac nid oes fawr ddim darpariaeth chwarae, os o gwbl, mewn rhai lleoliadau gwledig. Mae'r Cyngor yn cydweithio â Chymdeithas Tai Wales & West i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth chwarae sylfaenol mewn cymunedau, cyn rhoi Bocs Chwarae i'r cymunedau er mwyn iddynt hwyluso eu sesiynau chwarae anffurfiol eu hunain. Os ydynt am ennill cymwysterau pellach a ffurfioli eu sesiynau chwarae, gallant fanteisio ar yr hyfforddiant a ddarperir gan RAY Ceredigion.

Nodwyd bod cyfleoedd chwarae cadarnhaol yn gyfraniad hollbwysig at feithrin cydnerthedd sy'n lliniaru effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a thlodi. Mae cyfleoedd chwarae da yn aml yn helpu i feithrin cysylltiadau cadarnhaol â'r gymuned, yn gwella'r ymdeimlad o ddiogelwch cymunedol, ac yn gallu ysgafnhau'r pwysau ar yr heddlu.

Yn ystod y drafodaeth, tynnwyd sylw at y materion a ganlyn:

- Cist Gymunedol Ceredigion – mae cyfleoedd ar gael i gymunedau gael gafael ar arian y byddai modd ei ddefnyddio i drefnu digwyddiadau chwarae;
- Mae angen ymgynghori â phlant a phobl ifanc cyn cael gwared ar feysydd chwarae;
- Mae angen mwy o staff i helpu i ymgysylltu â rhieni er mwyn iddynt barhau i gynnal digwyddiadau chwarae ar gyfer plant yn eu cymunedau.

Cafodd aelodau'r Pwyllgor hefyd gyfle i drafod adroddiad 2019/2020 am Gynllun Gweithredu Chwarae Ceredigion cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cabinet.

Cwblhawyd trydydd Asesiad Digonolrwydd Chwarae Ceredigion yn 2019; cymeradwywyd yr asesiad a'r cynllun gweithredu cysylltiedig gan y Cabinet ym mis Mawrth 2019 cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Mae'r Cynllun Gweithredu'n cynnwys nifer o flaenoriaethau gweithredu sydd wedi'u clystyru mewn wyth maes penodol. Mae cynnydd da yn cael ei wneud o ran 90% o gamau gweithredu'r cynllun; mae 5% wedi'u cwblhau, ac nid yw'r gwaith ar 5% wedi cychwyn hyd yma. Rhoddwyd statws coch/melyn/gwyrdd i bob un o'r meysydd gweithredu. Mae deunaw o'r ugain cam gweithredu yn cael eu rhoi ar waith (melyn); ni wnaed unrhyw gynnydd o ran un ohonynt (coch); ac mae'r olaf wedi'u gwblhau (gwyrdd).

Er mai cynllun blynyddol yw hwn (yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru), cynigiwyd y bydd camau gweithredu'r cynllun yn parhau tan fis Mawrth 2022 pan fydd yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae nesaf yn cael ei lunio.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Cytunodd yr Aelodau i argymell bod y Cabinet:*

1. *Yn cymeradwyo'r adroddiad cynnydd am Gynllun Gweithredu Ceredigion 2019/2020 cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, yn ddibynnol ar ystyried y pwynt a ganlyn:*
    - *Bod aelod staff yn cael ei benodi i gynorthwyo'r swyddog â'i gwaith. Byddai hyn yn sicrhau bod modd cyfathrebu mwy â chymunedau o ran yr 89 ardal chwarae sydd ar gael eisoes, a phwyso a mesur cyfleoedd perthnasol eraill.*

*Bu i'r Cabinet gymeradwyo Cynllun Gweithredu Ceredigion 2019/2020. Nodwyd nad oedd yn briodol i'r Cabinet ystyried awgrym y Pwyllgor gan ei fod yn ymwneud â mater gweithredol.*

Mae Gweithgor Craffu Cyd-bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Canolbarth Cymru'n parhau i graffu ar waith Bwrdd Cyd-bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Canolbarth Cymru (Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd Canolbarth Cymru yn flaenorol). Cynhelir ei gyfarfodydd y prynhawn ar ôl pob un o gyfarfodydd y Bwrdd. Mae'r Cadeirydd, Cyfarwyddwr a Rheolwr Rhaglen y Sir, a'r Cyfarwyddwyr Arweiniol, yn mynd i'r cyfarfodydd hyn. Gweithgor Craffu ar y Cyd sy'n cynnwys aelodau o Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ceredigion (a Chyngor Sir Powys yn flaenorol) yw hwn. Daeth aelodaeth Cyngor Sir Powys i ben ddiwedd 2019.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Mae hwn yn gyfle i bwyso a mesur swyddogaethau amrywiol, i graffu ar y penderfyniadau a wnaed, ac i ystyried a ellir mynd ati i wella gwasanaethau ac i wneud argymhellion i'r perwyl hwn. Cyfarfu'r Gweithgor bedair gwaith yn ystod y cyfnod adrodd hwn.*

# Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu chwe gwaith yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2019/2020.



**Y prif faterion a drafodwyd**

Cafodd y flaenraglen waith ei monitro a'i diweddaru ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor fel eitem sefydlog ar yr agenda.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol ynghylch ailstrwythuro'r Gwasanaeth Cerdd, mater a drafodwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor. Yn flaenorol, roedd y Pwyllgor wedi argymell y dylai'r Cabinet roi ystyriaeth ddyladwy i'r Gwasanaeth ac na ddylid gwneud penderfyniad(au) cyn sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo i bwyso a mesur yr holl ddewisiadau'n llwyr ac i gydweithio â'r Gwasanaeth Cerdd, yn ogystal â Chyfeillion y Gwasanaeth Cerdd, i ddod i benderfyniad a fyddai o fudd i bawb; ac y dylai aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu gael gwybod am bob datblygiad drwy gydol y broses. Cafodd yr Aelodau wybod am yr ymgynghoriad a oedd yn mynd rhagddo a nifer y datganiadau o ddiddordeb a oedd wedi dod i law.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
*Cytunwyd i drefnu cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar ôl 3.30pm i roi cyfle i ddisgyblion annerch y Pwyllgor i roi eu barn am ddarpariaeth y Gwasanaeth Cerdd. O gynnal y cyfarfod ddiwedd mis Medi/ddechrau mis Hydref, nodwyd hefyd y byddai ffigur cywir a chyfredol ar gael am y nifer sy'n defnyddio'r gwasanaeth.*

Darparwyd adroddiad pellach am y Gwasanaeth Cerdd i'r Pwyllgor pan oedd y broses ailstrwythuro wedi dod i ben. Dywedwyd bod y Gwasanaeth wedi ymgynghori â staff dros y misoedd diwethaf, a bod disgyblion wedi ymrwymo i'w gwersi a thalu amdanynt am flwyddyn. Cynhaliwyd cyfarfod cadarnhaol â Chyfeillion Gwasanaeth Cerdd Ceredigion hefyd, a bu iddynt groesawu'r model newydd. Rhoddodd aelod o'r Cyngor Ieuenctid dystiolaeth i'r Pwyllgor, a dywedodd fod y Cyngor Ieuenctid wedi croesawu'r model a'r cyfleoedd sydd ynghlwm wrtho.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad cynnydd a luniwyd yn sgil argymhellion adroddiad ymchwil annibynnol mewn perthynas ag Ysgol Uwchradd Aberteifi. Cafodd yr Aelodau gyfle i gael atebion i'w cwestiynau.

Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y rhaglen i drawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Yn unol â newidiadau i'r ddeddfwriaeth a'r cod ADY, mae'n ofynnol cynllunio darpariaeth ar gyfer dysgwyr 0 i 25 oed ag ADY yng Ngheredigion.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried offeryn tracio ysgolion cynradd Ceredigion: EhedLin.

Cafodd yr Aelodau ddiweddariad am yr ymgynghoriad ynghylch yr opsiynau i ddatblygu neu i adleoli Theatr Felinfach. Cynhaliwyd ymgynghoriad anstatudol i gasglu barn defnyddwyr a buddiolwyr Theatr Felinfach yn sgil cyhoeddi astudiaeth ddichonoldeb, ac fe gafwyd trafodaethau rhwng Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor y Celfyddydau a Theatr Felinfach. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn i bobl roi eu barn ar dri opsiwn posibl ar gyfer y theatr. Cyflwynwyd crynodeb o'r sylwadau a oedd wedi dod i law ac ymatebion y Gwasanaeth i'r Pwyllgor.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Cytunodd y Pwyllgor i argymell bod y Cabinet yn cefnogi opsiwn 2: y posibilrwydd o adleoli'r theatr os caiff ysgol ardal ei chodi yn nyffryn Aeron er mwyn i'r theatr rannu safle'r ysgol ardal.*

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad y Prif Swyddog Addysg am ganlyniadau dros dro TGAU a Safon Uwch 2019. Erbyn hyn, mae'r dadansoddiad o berfformiad ysgol mewn arholiadau allanol yn seiliedig ar fwy nag un dangosydd. Cyflwynwyd yr holl ddangosyddion perfformiad i'r Pwyllgor. Cynhaliwyd dadansoddiad o'r perfformiad fesul sir ac ysgol. Gofynnwyd pam nad oedd unrhyw ddata ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Eglurwyd na ddangosir y data os oes llai na phum disgybl yn y cohort oherwydd y gallai fod yn bosibl adnabod y disgyblion hynny.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Mewn cyfarfod ar y cyd rhwng y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach, cyflwynwyd papur am gyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal a oedd yn cynnwys data dros gyfnod o sawl blwyddyn i sicrhau nad oedd modd adnabod unigolion.*

Cyflwynwyd y canlyniadau terfynol yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn fwrdeistrefol i gadarnhau bod y canlyniadau a rannwyd yn gynharach yn ystod y flwyddyn wedi'u dilysu.

Cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach i drafod y gyllideb Plant sy'n Derbyn Gofal.

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor adroddiad am ddatblygiadau o ran y gwaith sy'n mynd rhagddo i hybu Llais y Disgybl yng Ngheredigion. Hybu Llais y Disgybl yw un o brif hawliau erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: "Eich hawl i fynegi eich barn ac i gael rhywun i wrando arnoch." O'r herwydd, mae Llais y

Disgybl yn rhan hanfodol o bopeth y mae'r Gwasanaethau Dysgu'n ei wneud. Ers mis Ionawr 2019, mae'r Athro Ymgynghorol Uwch dros Lesiant ac Ymddygiad wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ddatblygu Llais y Disgybl yn ysgolion Ceredigion, a hynny i sicrhau bod iddo ffocws clir mewn cynlluniau strategol. Ar lefel uwchradd, mae ysgolion yn defnyddio offeryn hunanasesu SHERN i fesur llesiant disgyblion. Rhoddir adroddiad sy'n crynhoi'r canfyddiadau i bob ysgol ac i'r awdurdod lleol. Roedd yr adroddiad diwethaf a gyflwynwyd yn yr hydref 2018, yn nodi mai dim ond 46% o ddisgyblion Ceredigion sy'n teimlo bod eu safbwyntiau/syniadau'n cael eu cymryd o ddifrif. O'r herwydd, mae datblygu Llais y Disgybl yn darged yng nghynllun busnes cyfredol y Gwasanaethau Dysgu ar gyfer llesiant.

Mae gan bob ysgol gynradd ac uwchradd Gyngor Ysgol, ac mae disgyblion yn cael eu hethol ar ôl cynnal etholiadau democrataidd yn yr ysgol. Mae'r Awdurdod yn canolbwyntio ar fonitro eu heffeithiolrwydd ar hyn o bryd. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cydgysylltu Fforwm Ieuenctid i rai 16 i 25 oed. Cafodd fforymau Llais Disgyblion Ceredigion eu trefnu ar gyfer disgyblion cynradd yng nghyfnod allweddol 2 (7-11 oed) a disgyblion uwchradd (blynyddoedd 7 i 10). Ceir tri fforwm ar gyfer y grŵp oedran cynradd: Gogledd, De a Chanol y sir, gyda dau aelod etholedig o bob ysgol. Yn y grŵp oedran uwchradd, ceir un fforwm sy'n cynnwys tri aelod etholedig o bob ysgol. Cyfarfu'r fforymau am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf 2019. Cafodd y Pwyllgor wybod am y testunau y byddai'r disgyblion yn hoffi canolbwyntio arnynt yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**

*Gan fod lleihau'r defnydd o blastig yn thema gyffredin, dywedodd Cynghorydd na fyddai am weld yr arfer o ddarparu llaeth mewn ysgolion yn dod i ben i gyflawni hyn. Bu i'r swyddogion gadarnhau na fyddai hyn yn digwydd, a'u bod wrthi'n trafod â Chanolfan Bwyd Cymru y posibilrwydd o greu deunydd pecynnu y gellir ei ailgylchu i'w ddefnyddio gan gyflenwr llaeth lleol.*

Rhoddwyd diweddariadau i'r Pwyllgor am y Cwricwlwm i Gymru. Ar 30 Ebrill 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn ddrafft o'r cwricwlwm newydd. Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 30 Ebrill a daeth i ben ar 19 Gorffennaf 2019. Caiff fersiwn derfynol y cwricwlwm newydd ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2020, a bydd yn dod yn gwricwlwm statudol yn 2022. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i ysgolion arbrofi â'r cwricwlwm newydd cyn iddo fod yn statudol. Yn sgil y newid mawr i'r cwricwlwm, roedd angen agenda hyfforddi fawr, ac fe roddwyd yr agenda honno ar waith.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a chyflwyniad am system gategoreiddio cymorth ysgol 2019-20. Bwriedir i'r System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion ddarparu strwythur clir i adolygu'r cymorth ychwanegol sydd ei angen ar ysgolion er mwyn iddynt wella. Cafodd y Pwyllgor ei dywys drwy dri cham y system – dangosyddion canlyniadau, y capasiti i wella, a'r categori cymorth – ac fe gafodd wybod ymhle y mae canlyniadau terfynol y system gategoreiddio'n cael eu cyhoeddi.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad y Prif Swyddog Addysg am arolygiadau Estyn mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir. Mae Estyn yn cynnal arolygiad craidd ym mhob ysgol fel y nodir yn adran 28 o Ddeddf Addysg 2005. Cafodd y Pwyllgor

wybodaeth am yr ysgolion a'r lleoliadau nas cynhelir a gafodd eu harolygu yng Ngheredigion yn ystod blwyddyn academaidd 2018-19.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol am yr Adolygiad o Fand A Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Yn sgil Band A Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, bu modd i Geredigion roi pum prosiect ar waith rhwng 2014 a 2019:

- Ysgol Bro Teifi
- Ysgol Dyffryn Cledlyn
- Ysgol Henry Richard
- Ysgol Llanilar
- Ysgol Comins Coch

Cyflwynwyd gwybodaeth am y prosiectau a roddwyd ar waith a'r effaith ar safonau'r addysg a niferoedd y disgyblion, ynghyd â chrynodeb o'r cyfleusterau a ddarparwyd.

Mae Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi cychwyn, a bydd yr holl brosiectau a bennwyd yn cael eu cwblhau erbyn 2024. Yn eu plith mae:

- Estyn ac ailfodelu Ysgol Gynradd Aberteifi
- Estyn ac ailfodelu Ysgol Uwchradd Aberteifi
- Codi ysgol ardal newydd yn nyffryn Aeron

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
*Cynhelir gweithdai caffael gyda chontractwyr lleol ynghylch sut i dendro i gael contractau gan y Cyngor. Bydd hyn yn cynnwys gwaith i adeiladu ac i adnewyddu'r ysgolion.*

Gofynnodd y Pwyllgor am ddata a oedd yn cymharu niferoedd y cynorthwywyr dosbarth mewn ysgolion rhwng 2017-18 a 2018-19, ac fe gafodd esboniad o'r modd y caiff y grant ei ddefnyddio.

Gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor ystyried cyllidebau'r meysydd gwasanaeth sy'n rhan o'i gylch gwaith, ynghyd â Ffioedd a Thaliadau'r Cyngor ar gyfer y meysydd hynny.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
*Cafodd y goblygiadau i'r gyllideb eu hystyried drwy gydol y flwyddyn.*

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2017-2022. Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn i'r Pwyllgor graffu ar Gynllun Gweithredu diwygiedig yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn unol â newidiadau i bolisïau Llywodraeth Cymru ac i argymell i'r Cabinet y dylid ei gymeradwyo.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
*Bu i'r Pwyllgor argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo Cynllun Gweithredu diwygiedig Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2017-2022; bod adroddiad diweddaru'n cael ei gyflwyno yn un o'i gyfarfodydd yn y dyfodol; ac y dylid ystyried y posibilrwydd o hyrwyddo'r sector gofal plant i ddenu gweithwyr gwrywaidd i'r proffesiwn.*

Daeth Rheolwr-Gyfarwyddwr Dros Dro ERW, Andi Morgan, i'r cyfarfod i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am ERW.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Gofynnodd y Pwyllgor am i fanylion ariannol gael eu cynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol.*

Cafwyd adborth o gyfarfodydd Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW ac adroddiadau am y ffrydiau gwaith drwy gydol y flwyddyn.

Yn ystod y drafodaeth am gofnodion Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW ar ddiwedd blwyddyn fwrdeistrefol 2019/2020, nodwyd bod Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi rhoi hysbysiad o'i fwriad i adael ERW ar 1 Ebrill 2020. Gan fod Castell-nedd Port Talbot ar fin gadael, gofynnodd aelodau'r Pwyllgor a oedd hi'n bryd i Gyngor Ceredigion adolygu ei aelodaeth o ERW. Nodwyd bod angen rhoi rhybudd o flwyddyn cyn diwedd y flwyddyn ariannol er mwyn gadael ERW h.y. bydd angen i Gyngor Ceredigion roi hysbysiad o'i fwriad cyn 31 Mawrth 2020 os yw'n bwriadu gadael ERW ar 1 Ebrill 2021. Dywedodd nifer o'r Aelodau nad oeddent wedi'u darbwyllo bod y Cyngor, ei ysgolion na'r disgyblion yn cael budd o fod yn aelod o ERW. Cyfeiriodd swyddogion y Cyngor at rai enghreifftiau o fewnbwn gwerthfawr ERW mewn ysgolion uwchradd ar lefel pwnc, a'r cymorth a ddarperir i arweinwyr.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Gan fod Castell-nedd Port Talbot ar fin gadael ERW, bu i'r Pwyllgor argymell bod y Cabinet yn adolygu ei aelodaeth o ERW ac yn ystyried rhoi hysbysiad o fwriad Ceredigion i adael erbyn 31 Mawrth 2020 os bydd yn dod i'r farn nad yw ERW'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion effeithiol i ysgolion Ceredigion er budd dysgwyr.*

*Yn unol â chytundeb cyfreithiol ERW, cytunodd y Cabinet y bydd yr Arweinydd yn ysgrifennu at Gydbwyllgor ERW (a'r awdurdodau lleol perthnasol) i'w hysbysu y bydd Ceredigion yn gadael ERW ar 31 Mawrth 2021; ac y bydd adolygiad manwl a chyfredol o effaith ERW ar wella ysgolion a gwerth am arian yn cael ei gyflawni a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a'r Cabinet er mwyn iddynt benderfynu'n derfynol cyn i'r cyfnod hysbysu ddod i ben.*

**Ffrydiau gwaith**
Mae'r ffrydiau gwaith yn cynnwys aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu, ac mae'r Cadeirydd yn mynd i gyfarfodydd y tair ffrwd ac yn cyfrannu atynt.

**Safonau mewn Ysgolion**

**Anghenion Dysgu Ychwanegol, Cynhwysiant a Lles**

**Ymgysylltu Ieuenctid ac Addysg Barhaus**

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
*Mae'r ffrydiau gwaith yn cwrdd yn rheolaidd i godi ymwybyddiaeth, i gael hyfforddiant, ac i bennu meysydd y mae angen craffu'n fanylach arnynt fel rhan o'r broses o gynllunio'r flaenraglen waith.*

| **Safonau mewn Ysgolion** | | |
|---|---|---|
| **Meinir Ebbsworth / Mary Davies** | | |
| Cyfarfod | Adrodd yn ôl | Testun |
| 29/01/19 | 17/07/19 | Dadansoddiad o ddarpariaeth ôl-16 ysgolion uwchradd Ceredigion |
| 03/04/19 | 17/07/19 | Diweddariad am y gwaith i ddatblygu ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaeth cerdd yng Ngheredigion |
| 05/07/19 | 17/07/19 | Y cwricwlwm newydd |
| 02/12/19 | 09/01/20 | Monitro Safonau Ysgolion: Ysgol Dyffryn Cledlyn, Ysgolion Mynach, Pontrhydfendigaid a Syr John Rhys, Ysgol Henry Richard |
| 03/02/20 | 09/04/20 – fe'i gohiriwyd oherwydd Covid-19 | Proses hunanwerthuso gwasanaethau ysgolion |

| **ADY, Cynhwysiant a Llesiant** | | |
|---|---|---|
| **Gillian Evans** | | |
| Cyfarfod | Adrodd yn ôl | Testun |
| 19/05/19 | 17/07/19 | Ymyriadau Ceredigion, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) |
| 27/11/19 | 09/01/20 | Y System Trawsnewid ADY, Addysg Ddewisol yn y Cartref |
| 28/02/20 | 09/04/20 – fe'i gohiriwyd oherwydd Covid-19 | Darpariaeth llesiant ysgolion Ceredigion a'r System Trawsnewid ADY |

| **Y Porth Cymorth Cynnar, Llesiant a Dysgu Cymunedol** | | |
|---|---|---|
| **Elen James** | | |
| Cyfarfod | Adrodd yn ôl | Testun |
| 14/01/19 | 17/07/19 | Diweddariad am waith gwasanaethau unigol y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes a Diwylliant a'r hyn a gyflawnwyd dros y misoedd diwethaf |
| 23/05/19 | 17/07/19 | Grant Cymorth Ieuenctid 2019-2020 a'r Cwricwlwm Amgen |
| 07/02/20 | 09/04/20 – fe'i gohiriwyd oherwydd Covid-19 | Ysgol Cwrtnewydd – y cwricwlwm amgen a ddarperir i flynyddoedd 9, 10 ac 11 |

Cytunwyd i newid enw'r ffrwd waith Ymgysylltu Ieuenctid ac Addysg Barhaus i'r Porth Cymorth Cynnar, Llesiant a Dysgu Cymunedol.

## Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus wyth gwaith yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2019/2020.



**Y prif faterion a drafodwyd**

Ar ddechrau'r flwyddyn fwrdeistrefol, bu'r Pwyllgor yn ystyried y camau i lunio'r Blaenraglenni Gwaith Trosolwg a Chraffu. Cafodd y flaenraglen waith ei monitro a'i diweddaru ym mhob un o gyfarfodydd rheolaidd y Pwyllgor fel eitem sefydlog ar yr agenda.

Daeth Curadur Amgueddfa Ceredigion i un o gyfarfodydd y Pwyllgor i amlinellu cynnwys Adroddiad Gwerthuso Terfynol y Prosiect Dulliau Newydd yn Amgueddfa Ceredigion.

Bu'r Pwyllgor yn trafod y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ei chylch.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
*Cytunodd y Pwyllgor i argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo cynnwys y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion er mwyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ei chylch ym mis Gorffennaf 2019, yn ddibynnol ar ddarparu crynodeb gweithredol sy'n amlinellu'r prif bwyntiau oherwydd maint dogfennau'r Cynllun Datblygu Lleol.*

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Strategaeth ar gyfer Mannau Agored. Bu hefyd yn ystyried yr adroddiad am y cynigion a'r syniadau i ddefnyddio'r promenâd a thir arall y Cyngor. Roedd Clerc Cyngor Tref Aberystwyth wedi gofyn i gael siarad mewn cyfarfod gan ddefnyddio'r Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd, ac fe roddodd y

Cadeirydd bum munud iddi rannu barn y Cyngor Tref â'r Pwyllgor. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried tri chynnig.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Bu i'r Pwyllgor argymell bod y Cabinet yn cytuno ar gynigion A, B ac C yn ddibynnol ar y pwyntiau a ganlyn:*
*(i) bod gwerthwyr yn cael eu hannog i werthu cynnyrch lleol lle bynnag y bo modd;*
*(ii) bod y gofyniad sy'n peri iddi fod yn ofynnol rhoi brand deiliad y drwydded ar ddeunydd pecynnu bwyd a diod y gellir ei ailgylchu er mwyn ei ddwyn i gyfrif am ei wastraff yn cael ei ddileu. Nid oedd yr Aelodau'n teimlo bod hyn yn deg;*
*(iii) mae'r adroddiad yn cyfeirio at ddarparu mwy o finiau – cytunodd yr Aelodau fod angen pwyso a mesur hyn ymhellach e.e. pwy fydd yn eu cyflenwi*
*(iv) bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys yn briodol yn y Strategaeth Ystadau i greu promenâd mwy bywiog, yn enwedig o ran arwyddion trwyddedeion. Roedd y Pwyllgor hefyd am sicrhau bod sylw digonol yn cael ei roi i'r posibilrwydd o wrthdaro rhwng cerbydau a cherddwyr a materion iechyd a diogelwch eraill;*
*(v) bod yr hen draddodiad diwylliannol hanesyddol Cymreig yn cael ei gynnal cyhyd ag y bo modd;*
*(vi) bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn parhau i ystyried ac i fonitro'r gwaith hwn fel rhan o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ystadau, a bod adroddiad arall yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar ôl y cyfnod treialu cyn bod unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud. Bydd hyn yn caniatáu i drefi a phentrefi glan môr eraill Ceredigion gael eu cynnwys yn yr adolygiad cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud.*

Bu'r Pwyllgor yn ystyried erydu arfordirol a llifogydd, mater a oedd wedi'i nodi ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol fel un o'r prif risgiau y mae'r sir yn ei hwynebu. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor am gynlluniau amddiffyn yr arfordir Aberaeron ac Aberystwyth.

Nododd y Pwyllgor y gwaith sy'n cael ei wneud i fonitro'r arfordir, a'r cynnydd sy'n cael ei wneud i ddatblygu cynlluniau amddiffyn yr arfordir Aberaeron ac Aberystwyth.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Bydd y Pwyllgor yn cael diweddariad bob chwe mis am hynt a datblygiad cynlluniau Aberaeron ac Aberystwyth, ynghyd â diweddariadau am ddatblygiad cynlluniau'r Borth i Ynys-las (Cam 3) a Llangrannog pan fydd Llywodraeth Cymru'n clustnodi arian i roi'r ddau gynllun hynny ar waith.*

*Cytunodd y Pwyllgor i argymell i'r Cabinet:*

i. *Bod yr arfordir cyfan yn bwysig a bod angen i swyddogion bwyso a mesur ffyrdd o gysylltu â pherchnogion tir preifat i agor trafodaethau am ffordd o reoli'r arfordir cyfan.*
ii. *Bod llythyr yn cael ei anfon at yr Ardal Gwella Busnes i ofyn am gyfraniad at Gynllun Amddiffyn Arfordir Aberystwyth oherwydd y bydd yn elwa o'r gwaith a wneir.*
iii. *Bod llythyr yn cael ei anfon at Lywodraeth Cymru i ddweud y dylai fod yn gyfrifol am 100% o gost cynlluniau amddiffyn yr arfordir oherwydd eu bod o*

*fudd i Gymru gyfan ac na ddylai'r awdurdodau hynny a chanddynt arfordir ysgwyddo'r gost.*

iv. *Ei fod yn pwyso a mesur opsiynau i gyfuno ynni adnewyddadwy a chynlluniau amddiffyn yr arfordir.*

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Strategaeth Toiledau Cyhoeddus ddrafft Ceredigion cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ei chylch.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Cytunodd y Pwyllgor i argymell i'r Cabinet:*

i. *Bod yr arwyddion ar briffyrdd cyhoeddus at doiledau cyhoeddus yn cael eu gwella;*
ii. *Bod y Pwyllgor yn cefnogi codi ffi am ddefnyddio toiledau cyhoeddus i godi refeniw i gynnal y cyfleusterau hyn ac i gefnogi mynediad at ddarpariaeth newydd lle bo angen;*
iii. *Ei bod yn hanfodol bod toiledau cyhoeddus yn cael eu darparu ar hyd llwybrau teithio strategol;*
iv. *Bod llythyr yn cael ei anfon at Lywodraeth Cymru i ofyn a fydd yn ailgyflwyno'r grant o £500 i ddarparwyr gwasanaethau lleol sy'n darparu eu cyfleusterau am ddim i'r cyhoedd;*
v. *Bod pŵer yn cael ei ddirprwyo i swyddogion er mwyn iddynt gymeradwyo gosod gatiau mewn toiledau cyhoeddus lle bo hynny'n briodol yn eu tyb nhw.*

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Strategaeth Rheoli Gwastraff Ceredigion 2019-25 i gael diweddariad am y camau i lunio strategaeth wastraff newydd i Geredigion ac i gynnig newidiadau tymor byr i sicrhau bod modd llunio'r strategaeth.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Cytunodd y Pwyllgor i wneud yr hyn a ganlyn:*
*a. Cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth ddrafft ymhellach*
*b. Cefnogi'r cynigion tymor byr o ran contractau safleoedd gwastraff cartref*
*c. Nodi'r diweddariad o ran safleoedd gwastraff cartref*

Gofynnodd y Pwyllgor i gael diweddariad am feysydd parcio talu ac arddangos a'r dull gorfodi parcio sifil a ddefnyddir i fonitro ac i orfodi cyfyngiadau parcio mewn digwyddiadau. Gofynnwyd am farn y Pwyllgor cyn mynd ati i gynnal ymchwiliad manwl pellach ac i lunio cynigion o ran newidiadau posibl i ffioedd a thaliadau'r meysydd parcio talu ac arddangos a reolir gan y Cyngor. Roedd y papur hefyd yn amlinellu'r cynigion i ddefnyddio Maes Parcio Pendre yn y dyfodol.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Cytunodd y Pwyllgor y dylid gwneud mwy o waith o ran y cynigion a wnaed ar gyfer y meysydd parcio talu ac arddangos, a bod y prosesau ymgynghori gofynnol o ran cynnig maes Parcio Pendre yn cael eu rhoi ar waith.*

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Adroddiad Monitro Blynyddol 2018/19 ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Ymhlith y meysydd a oedd yn peri pryder roedd:

- Cyflawni'r Strategaeth Anheddiad o fewn cyfnod y cynllun;
- Y cyflenwad tir ar gyfer tai;
- Cyflenwi safleoedd tai a neilltuwyd;
- Datblygu tai mewn lleoliadau priodol.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
*Cytunodd y Pwyllgor i gyflwyno’r sylwadau a’r argymhellion a ganlyn i’r Cabinet o ran y cynllun newydd:*

1. *Bod cyni’n dal i fod yn broblem yn y sir o ran adeiladu a gwerthu eiddo.*
2. *Bod pryderon wedi’u mynegi o ran y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a gyhoeddir yn 2020 ac sy’n nodi ymhle y dylid ymgymryd â datblygiadau o bwys cenedlaethol, ymhle mae’r prif ardaloedd twf, a pha seilwaith a gwasanaethau y mae eu hangen. Mae’r dogfennau hyn yn canolbwyntio’n bennaf ar goridorau’r De a’r Gogledd. Mae’r Pwyllgor yn gofyn i’r Cabinet bwysleisio wrth Lywodraeth Cymru ei bod yn bwysig peidio ag anghofio’r Canolbarth ac ardaloedd gwledig.*
3. *Bod tai’n gysylltiedig â’r economi a’i bod yn hollbwysig bod Ceredigion yn cael ei datblygu’n briodol i sicrhau bod pobl yn aros yn y sir.*
4. *Sicrhau bod digon o dai cymdeithasol ar gael i’r henoed, i bobl anabl ac i deuluoedd ifanc i sicrhau bod modd iddynt aros yn eu cymunedau.*
5. *Sicrhau bod systemau ar waith i gynnal ardaloedd chwarae mewn datblygiadau tai.*
6. *Sicrhau bod systemau ar waith i ddefnyddio tai gwag unwaith eto.*

Bu i’r Pwyllgor sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i helpu i lunio Strategaeth Economaidd 2020-2035. Cyfarfu’r grŵp dair gwaith. Nod y grŵp oedd craffu o’r dyddiau cynnar ar ddatblygiad y strategaeth. Roedd mandad clir i ddatblygu’r strategaeth:
- Blaenoriaeth gorfforaethol 1: Hybu’r economi
- Blaenoriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus: trawsnewid rhagolygon economaidd
- Blaenoriaeth ranbarthol a rennir gan bartneriaeth y Canolbarth

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
*Swyddogaeth y grŵp gorchwyl a gorffen oedd:*
- *Cyfrannu at y gwaith o lunio’r strategaeth*
- *Adolygu hynt y gwaith*
- *Craffu ar ddatblygiad y strategaeth*
- *Pennu unrhyw fylchau*
- *Rhoi adborth i’r grŵp craffu.*

*Yn ei gyfarfod, cytunodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus i argymell cynnwys y strategaeth ddrafft i’r Cabinet ac i argymell ei fod yn bwrw ymlaen i ymgynghori’n ffurfiol â'r cyhoedd.*

Bu’r Pwyllgor yn ystyried adroddiad am glefyd (Chalara) coed ynn. Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi gwybod i’r Pwyllgor am y risg sylweddol y gallai’r clefyd ei pheri,

a gofyn am gymorth i ymgysylltu â deiliaid asedau i lunio Cynllun Gweithredu Corfforaethol o ran Clefyd Coed Ynn ac i roi'r cynllun hwnnw ar waith. Mae'r Cyngor yn ysgwyddo dyletswydd gofal i sicrhau nad yw ei goed yn peri risg afresymol i bobl nac i eiddo. I fodloni'r ddyletswydd hon, bydd angen mynd ati i bennu unrhyw goed ynn sy'n eiddo i'r Cyngor neu sy'n cael eu rheoli ganddo, asesu eu risg, a'u rheoli. Bu i'r Pwyllgor gydnabod bod y clefyd a'i risg i'r awdurdod o'r pwys mwyaf.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Cytunodd y Pwyllgor i argymell i'r Cabinet:*

I. *y dylid drafftio Cynllun Gweithredu Corfforaethol o ran Clefyd (Chalara) Coed Ynn;*
II. *bod y Cynllun Gweithredu'n dychwelyd gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus i'w ystyried, gan gynnwys manylion ariannol;*
III. *y dylai gydnabod yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i gyflawni hyn, a lobïo i gael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a/neu CSS (Cymru);*
IV. *bod swyddogion yn ymchwilio i'r posibilrwydd o benodi Swyddog Corfforaethol Clefyd Coed Ynn;*
V. *y dylid cytuno i roi gwybodaeth sylfaenol i drigolion Ceredigion am y clefyd coed ynn ar wefan y Cyngor ar ôl cael cyngor cyfreithiol;*
VI. *y dylid parhau i roi hysbysiadau adran 154 i goed ynn â mwy na 50% o'r clefyd yn y corun lle bo risg wedi'i phennu;*
VII. *y dylid pwyso a mesur y cyfle i sefydlu tîm yn yr awdurdod a chanddo beiriannau priodol i ymgymryd â'r gwaith cwympo coed oherwydd y gall fod yn fwy costeffeithiol na defnyddio contractwyr. Byddai modd defnyddio'r sgilgynnyrch ar gyfer biomas gan arbed mwy o arian i'r awdurdod;*
VIII. *y dylid cydweithio ag undebau'r ffermwyr i roi cyngor i berchnogion tir preifat;*
IX. *y dylid parhau i drafod ag awdurdodau eraill.*

*Bu i'r Cabinet nodi'r argymhellion.*

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad am gaffael darpariaeth cludiant a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y broses, ac yn cynnig rhai camau i resymoli ac i wella'r ddarpariaeth yn sgil gwaith blaenorol a wnaed gan y Pwyllgor.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Cytunodd y Pwyllgor i gefnogi'r cynigion a gyflwynwyd i'w hystyried a'u cymeradwyo gan Fwrdd yr Uned Gorfforaethol Cludiant Teithwyr, yn ddibynnol ar ychwanegu amod bod rhaid i bob contract ar gyfer gwasanaethau bysiau, ceir a thacsis ddatgan bod eu cerbydau'n llai nag 20 oed.*

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor yr Adroddiadau Ymchwil Terfynol am lifogydd Storm Callum.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y camau a gymerwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Geredigion Ddi-blastig. Nodwyd y byddai'r defnydd o boteli llaeth plastig yn destun ymchwiliad yn y dyfodol agos, ochr yn ochr â'r deunyddiau glanhau a ddefnyddir mewn swyddfeydd.

Cyflwynwyd Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2019 i'r Pwyllgor.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Cytunodd y Pwyllgor i argymell i'r Cabinet y dylid cyflwyno Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2019 i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi gytuno arno, gan fynegi amheuon dwys ynghylch y ddeddfwriaeth.*

Gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor ystyried cyllidebau'r meysydd gwasanaeth sy'n rhan o'i gylch gwaith, ynghyd â Ffioedd a Thaliadau'r Cyngor ar gyfer 2020/21.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Cafodd y goblygiadau i'r gyllideb eu hystyried drwy gydol y flwyddyn.*

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y camau i bennu trywydd strategol lefel uchel Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd 2020-2025. Yn rhinwedd ei rôl fel awdurdod priffyrdd lleol, mae Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am gynnal a chadw 2,151km o gerbytffyrdd, 212km o droedffyrdd, 983 o bontydd a'r strwythurau sy'n eu cynnal, a 6,877 o oleuadau stryd â chost amnewid gros gyfun o dros £1.6 biliwn. Mae rhwydwaith priffyrdd y sir o bwys mawr i'r cyhoedd, i fusnesau ac i ymwelwyr, ac mae ei gyflwr yn hollbwysig i lewyrch economaidd a chymdeithasol Ceredigion.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Ar ôl trafod, cytunodd y Pwyllgor i argymell i'r Cabinet y dylid cynyddu'r gyllideb a ddyrennir i gynnal a chadw'r priffyrdd. O wneud hyn, bydd modd byrhau'r amserlen i wella'r priffyrdd. Mae ansawdd y priffyrdd yn hollbwysig i wella economi Ceredigion ac mae'n ffactor bwysig yn natblygiad y Strategaeth Economaidd gyfredol.*

## Y Bwrdd Perfformiad

Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y pum pwyllgor trosolwg a chraffu thematig yn mynd i gyfarfodydd y Bwrdd Perfformiad.

Mae hwn yn fforwm lle gall aelodau'r Bwrdd Perfformiad ddod ynghyd:

- i gael cipolwg cyfannol ar berfformiad y Cyngor;
- i bennu ac i drafod materion trawsbynciol lefel uchel sy'n effeithio ar fwy nag un maes gwasanaeth e.e. diwygio lles;
- i roi her feirniadol i feysydd lle mae'r perfformiad yn wael;
- i bennu cyfleoedd i wella gwasanaethau, risgiau rhag darparu gwasanaethau, a goblygiadau i adnoddau.

Mae'n gyfle i'r Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion bennu pynciau y mae angen i'r pwyllgorau trosolwg a chraffu roi mwy o sylw iddynt a'u cynnwys yn eu blaenraglenni gwaith.

**Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chraffu**
**Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu**